parch cynnwys dylanwadu hawliau gwrando

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

adroddiad blynyddol

04-05

champions train hard
league winners
89
GOLD COAST SPRING
ATHLETICS DEPARTMENT

Cynnwys

		Rhif y Dudalen
RHAGAIR:	gair gan Peter Clarke	4
ADRAN UN:	Cyflwyniad	5
ADRAN DAU:	Cadw plant a phobl ifanc yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud	10
	Dechreuadau cynnar	
	Cynnwys plant a phobl ifanc yn ein gwaith beunyddiol	
	Estyn llaw i blant a phobl ifanc	
	Rhoi llais i blant a phobl ifanc yn ein gwaith	
	Dewis beth sydd nesaf	
	Hybu Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn	
	Llysgenhadon	
	Codi llais	
	Gweithio gydag eraill	
	Dylanwadu a rhwydweithio	
	Gweld y darlun mwy	
	Ewrop a'r tu hwnt	
ADRAN TRI:	Defnyddio'r offer sydd gennym: y pwerau statudol	19
	Adolygu polisïau a gweithdrefnau	
	Cyhoeddi'n canfyddiadau a lledaenu arfer da	
	Monitro cynnydd o ran argymhellion	
	Darparu Cyngor a Chymorth	
	Ffeithiau a ffigurau	
ADRAN PEDWAR:	Ein rhaglen waith at y dyfodol	29
ADRAN PUMP:	Adolygiad materion y Comisiynydd Plant:	31
	Materion allweddol 2004-05	
	Y diweddaraf ar faterion a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol	
ADRAN CHWECH:	Crynodeb o'r Datganiad Ariannol	42

Tîm y Comisiynydd Plant: siart trefniadaeth — Tudalennau canol

Rydym ni'n ddiolchgar unwaith eto i'r holl blant a phobl ifanc sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod y flwyddyn, boed hynny drwy ein gwaith uniongyrchol, fel llysgenhadon ysgol, aelodau o Atebnôl, neu drwy gymryd rhan yn ein hymgynghori, digwyddiadau neu adolygiadau. Mae llawer o'u safbwyntiau, eu sylwadau a'u ffotograffau'n ymddangos yn yr adroddiad.

Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais.

cyfartal gwrando cefnogaeth ffeithiau lleisiau dysgu ystyried

Cyfeiriadau a manylion cyswllt
Tŷ Ystumllwynarth
Llys Siarter
Phoenix Way
Llansamlet
Abertawe SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600
Ffacs: 01792 765601

Plas Penrhos
Oak Drive
Bae Colwyn
Conwy LL29 7YW
Ffôn: 01492 523333
Ffacs: 01492 523336

E-bost:
post@complantcymru.org.uk
Gwefan:
www.complantcymru.org.uk

Gair gan Peter Clarke

Bydd unrhyw un sy'n deall cefndir fy rôl yn gwerthfawrogi arwyddocâd gwrando ar blant a phobl ifanc. Mae'n un o rannau pwysicaf fy swydd, ac yn rhywbeth sy'n ei gwneud yn wahanol i waith llawer o bobl eraill sy'n chwarae rôl ym mywydau plant. Mae'n hanfodol bod pencampwr plant yn cymryd eu sylwadau o ddifri ac yn gweithredu ar eu pryderon.

Yn adroddiad blynyddol y llynedd fe wnes i gyflwyno fy nwy brif flaenoriaeth wrth gyrraedd hanner ffordd drwy fy nghyfnod yn y swydd. Bwriad y ddwy flaenoriaeth yw sicrhau bod fy swyddfa mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc a'm bod innau'n cael gwybod beth sy'n bwysig iddynt a beth sy'n achosi anhawster penodol iddyn nhw a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Fy mwriad oedd datblygu'r gwasanaeth cyngor a chymorth fel ei fod yn canolbwyntio'n fwy amlwg ar ddarparu arweiniad uniongyrchol i blant. Fe wnes i ymrwymiad hefyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cynllunio i ddatblygu rôl uniongyrchol plant a phobl ifanc yn y gwaith o bennu blaenoriaethau fy swyddfa.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'n cynnydd o ran rhoi'r bwriadau hyn ar waith yn ogystal â'r datblygiadau tuag at eu gweithredu'n llawn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu pwyslais cynyddol ar wrando nid yn unig ar y plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi cael hyd i'w llais, ond hefyd ar estyn llaw i'r rheiny sydd ar y cyrion, yn ddiamddiffyn a heb arfer cael cyfle i leisio barn na chlywed eu llais. Fy nhasg eleni yw cadarnhau a gwella'r hyn sydd bellach yn ei le a sicrhau bod yr hyn y mae'r lleisiau hynny wedi'i ddweud wrthym yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn ein holl waith. Byddaf yn defnyddio dylanwad y swyddfa hon i gyflawni newidiadau go iawn ar sail yr hyn y mae plant yn ei ddweud wrthym.

Mae gweledigaeth uchelgeisiol yn galw am adnoddau digonol ac rwyf wedi ysgrifennu o'r blaen nad wyf byth yn teimlo'n fodlon ar yr hyn a gyflawnwyd. Mae fy nghynllun tair blynedd yn cyflwyno'r achos dros gynyddu nifer y staff sy'n ymwneud â gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru gan fod yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yma hefyd wedi dangos yr hyn sy'n dal heb ei wneud. Rwy'n edrych ymlaen at ysgrifennu yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf am ganlyniadau'r camau rydym wedi'u cymryd o ganlyniad i ymwneud a dylanwad pellach plant a phobl ifanc ar fy ngwaith. Rwy'n credu ein bod eisoes yn dangos ein gwerth ac wedi dangos yr angen am fwy o adnoddau ariannol i'n galluogi i sicrhau dyfodol gwell, mwy disglair, mwy diogel a mwy iach ar gyfer plant Cymru.

Peter Clarke
Comisiynydd Plant Cymru
Hydref 2005

Adran 1

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i seilio'n bennaf ar y gwaith a wnaed gan y Comisiynydd Plant a'i dîm yn ystod y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005; ond mae'n mynd ymhellach na hynny hefyd.

Mae llawer o'n gwaith yn mynd ymlaen yn barhaus, ac nid oes modd gwahanu gweithgareddau yn yr un modd â gwybodaeth ariannol neu ystadegau. Er mwyn sicrhau atebion i'r cwestiynau beth, pam, sut, ble a phryd y byddai llawer yn hoffi eu gofyn, mae'n berthnasol rhoi peth cefndir ac adrodd ar beth o'n gwaith cyfredol.

Fel tîm rydym yn ymroddedig i wireddu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru.

Gwrando ar blant a phobl ifanc, dysgu oddi wrthynt a gweithredu ar yr hyn a glywsom yw conglfeini'n hymagweddiad, ac adlewyrchir cylch gorchwyl eang y Comisiynydd Plant yn lled ac amrywiaeth ein gwaith. Mae llawer i'w wneud o hyd ac rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn dweud cymaint wrth y darllenwyr am broses cyflawni'n gwaith ag y mae am y casgliadau a'r canlyniadau.

Beth yw Comisiynydd Plant?

Mae Comisiynydd Plant yn fwy nag ombwdsmon, ac weithiau fe'i disgrifir fel pencampwr plant neu fel sefydliad hawliau dynol annibynnol i blant.

Mae nifer y Comisiynwyr Plant yn tyfu yn Ewrop ac ar draws y Byd wrth i wledydd ddod yn fwy ymwybodol o'r angen am hybu a diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc, a'u cymryd o ddifri. Bellach mae gan bob un o wledydd y DU Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yn eu swyddi. Mae union waith y Comisiynydd Plant, a sut mae'n ei gyflawni, yn amrywio o wlad i wlad – ond maent bob amser yn gweithredu er lles plant a phobl ifanc.

Sut a pham cafodd Cymru Gomisiynydd Plant?

Bu sefydliadau plant yng Nghymru yn ymgyrchu i gael Comisiynydd Plant am dros 10 mlynedd. Roedd gwleidyddion y Cynulliad hefyd yn frwd dros y syniad. Roeddent am gael rhywun a fyddai'n codi llais dros hawliau plant a phobl ifanc ac yn helpu i gryfhau a gwella'r systemau sydd yno i'w hamddiffyn.

Yn gynnar yn 2000, cyhoeddodd Syr Ronald Waterhouse ei adroddiad – *Ar goll mewn gofal* – yn dilyn ymchwiliad hir i gam-drin plant mewn cartrefi plant yng Ngogledd Cymru. Ei argymhelliad ef oedd y dylai Cymru gael Comisiynydd Plant i geisio atal pethau o'r fath rhag digwydd eto. Cyflymodd hyn yr ymgyrch ac aeth deddfwriaeth drwy Senedd y DU i greu'r swydd a rhoi'r pwerau angenrheidiol iddi.

"Dwi'n mwynhau gwario amser gyda fy ffrindie, ond does yna unman i fynd."

Pryd crëwyd y swydd?

Sefydlwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru – y gyntaf o'i bath yn y DU – gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Ehangodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 gylch gorchwyl y swydd a phennu ei phrif nod, sef diogelu a hybu hawliau a lles plant yng Nghymru.

Pwy yw Comisiynydd Plant Cymru?

Peter Clarke – a daeth ef i'w swydd ar ddydd Gŵyl Dewi 2001. Cafodd ei benodi gan Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl cael ei gyfweld gan blant, pobl ifanc ac oedolion.

Mae'r Comisiynydd Plant a'i dîm yno i helpu sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn:

- ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth
- cael y cyfleoedd a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen ac y maent yn eu haeddu
- cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- medru codi llais yn eu cymunedau ac yn medru chwarae rhan mor llawn â phosib mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw
- gwybod am eu hawliau a Chonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r prif ffocws ar bawb 18 oed a iau sy'n byw yng Nghymru, neu sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Ond gall y Comisiynydd Plant weithredu hefyd dros bobl ifanc hŷn o dan rai amgylchiadau – er enghraifft, os ydynt wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol. Os oes goblygiadau ar gyfer plant a phobl ifanc heddiw, gall hefyd ymchwilio i bethau a ddigwyddodd i oedolion pan oeddent yn blant.

"Mae'r wefan yn 'brilliant', a bydd y ffordd mae o wedi'i osod allan yn gwneud i rieni feddwl am eu plant."

parch
cynnwys
lleisiau
hawliau
gwrando
agored
cefnogaeth
tegwch

Beth gall y Comisiynydd a'i dîm ei wneud?

Nid yw rôl y Comisiynydd Plant wedi'i chyfyngu i faterion a ystyrir fel arfer yn rhai cysylltiedig â phlant, megis iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae cynllunio, cludiant, yr amgylchedd, datblygu economaidd a materion gwledig hefyd yn rhan o gwmpas ei rôl.

Gall y Comisiynydd:

- adolygu effeithiau polisïau, polisïau arfaethedig a chyflwyno gwasanaethau i blant
- archwilio'n fanylach achos plentyn neu blant penodol os yw'n ymwneud â mater sy'n gyffredinol berthnasol i fywydau plant yng Nghymru
- ofyn bod asiantaethau neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan yn darparu gwybodaeth, a gofyn bod tystion yn rhoi tystiolaeth dan lw
- darparu cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac i eraill sy'n pryderu am eu hawliau a'u lles

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru hefyd bwˆer ychwanegol pwysig i ystyried a chyflwyno cynrychiolaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch **unrhyw fater** sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

Mae'r Comisiynydd Plant yn ymroddedig i:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble mae ei swyddfeydd a sut mae cysylltu ag ef a'i dîm
- annog plant i gysylltu ag ef a'r tîm
- gofyn barn plant ar ei waith a'i waith yn y dyfodol, gan ganiatáu iddynt ddylanwadu ar ei raglen waith
- sicrhau ei fod ef a'i staff yn mynd i gwrdd â phlant ble bynnag y maent
- ystyried yn arbennig blant sy'n 'anodd eu cyrraedd', yn dioddef eithrio cymdeithasol neu ar y cyrion mewn rhyw ffordd
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gyfeirio ato ym mhopeth y mae ef a'r tîm cyfan yn ei wneud.

"Dydan ni ddim yn cael digon o drafodaeth am fywyd yn yr ysgol."

Sut rydym yn gweithio

Mae'r Comisiynydd Plant a'i staff wedi'u lleoli mewn swyddfeydd yn Abertawe a Bae Colwyn, ond maent yn gweithio ym mhob rhan o Gymru. Daeth strwythur newydd i rym yn ystod 2004-05 wrth i bedwar grŵp o staff gael eu creu:

- Cyfathrebu a Chyfranogiad
- Gwasanaethau Corfforaethol
- Cyfreithiol ac Ymchwiliadau
- Polisi a Gwerthuso Gwasanaeth

Mae Is-Gomisiynydd neu gyfatebol yn ben ar bob grŵp o staff ac maent yn cyfrannu sgiliau a gwybodaeth arbenigol i waith y swyddfa. Mae llawer o brosiectau a darnau o waith yn golygu bod staff o feysydd gwahanol yn cydweithio fel tîm aml-swyddogaeth.

"Rydyn ni moyn doctoriaid sy'n rhoi help a chyngor da ac yn cadw pethau'n gyfrinachol os ydych chi am wneud hynny."

Am wybod mwy?

- Gellir cael hyd i Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ar wefan Llyfrfa Ei Mawrhydi: **www.legislation.hmso.gov.uk**
- Pasiodd y Cynulliad Reoliadau ar gyfer y Comisiynydd Plant ym mis Gorffennaf 2001, y gellir eu gweld ar wefan Llyfrfa Ei Mawrhydi: **www.wales-legislation.hmso.gov.uk**
- Mae dogfen ymgynghori'r Cynulliad ar gynigion ar gyfer rheoliadau'r Comisiynydd yn darparu mwy o fanylion ar y cylch gorchwyl llawn a'r ystod o bwerau. Ceir hyd iddi ar wefan y Cynulliad: **www.wales.gov.uk/subichildren**
- Mae llawer o wybodaeth a fersiwn hawdd ei deall o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar **www.therightssite.org.uk**, **www.savethechildren.org.uk/rightonline**, **www.childreninwales.org.uk**, **www.unicef.org.uk** neu **www.crae.org.uk**. Gallech edrych hefyd ar **www.funkydragon.org** neu **www.carnegie.org**
- Am fwy o wybodaeth am Gomisiynwyr Plant ac ombwdsmyn ledled Ewrop ewch i **www.ombudsnet.org**
- I gael mwy o wybodaeth am y gwahanol Gomisiynwyr plant a phobl ifanc yn y DU, ewch i'w gwefannau: Yr Alban **www.sccyp.org**; Gogledd Iwerddon **www.niccy.org**; a Lloegr **www.everychildmatters.gov.uk/strategy/childrenscommissioner** (gwefan uniongyrchol i ddod cyn bo hir)
- Edrychwch ar ein gwefan: **www.complantcymru.org.uk**

Adran 2

Cadw plant a phobl ifanc yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud

Dechreuadau cynnar

O'r cychwyn cyntaf – hyd yn oed cyn bod tîm o staff yn eu lle – roedd Comisiynydd Plant Cymru yn benderfynol o sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ran allweddol i'w chwarae wrth bennu ei agenda a dylanwadu ar ei raglen waith. Cyn bod swyddfa ganddo, hyd yn oed, roedd wedi penderfynu o'r hyn a glywsai wrth deithio o amgylch ysgolion, grwpiau ieuenctid a phrosiectau ar draws y wlad bod angen gwneud rhywbeth am doiledau ysgol. Ar ôl edrych ar y cefndir polisi a chasglu barn plant a phobl ifanc ledled Cymru ar y toiledau yn eu hysgol a'r hyn y dylid ei wneud amdanynt, cyhoeddodd adroddiad: ***Codi'r clawr***. Yn ddiweddarach buom hefyd yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn astudiaeth ar ddiogelwch bysus ysgol, gan adael iddynt ddylanwadu ar yr argymhellion a rhoi amlygrwydd i'w hargymhellion hwythau, yn yr adroddiad ***Ond mod i'n cyrraedd yn sâff***.

Er bod ein hymrwymiad yn glir ac yn amlwg o'n hadroddiadau, roeddem am wneud yn well. Felly yn 2004-05 fe wnaethom ni ddechrau gweithredu'n cynlluniau i sicrhau bod y pethau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yn wir wrth wraidd ein gwaith. Gyda'r holl wahanol fathau o faterion oedd yn dod at ein sylw trwy agweddau gwahanol ar y gwaith, roedd angen i ni sefydlu trefn deg a democrataidd i adael iddynt leisio barn ar ein blaenoriaethau gweithredu, yn hytrach na gwneud yr holl benderfyniadau hynny ein hunain. Roedd angen hefyd i ni

sicrhau bod gan bobl ifanc gyfle i fod yn rhan o'n gwaith beunyddiol a ffordd o sicrhau bod yr hyn y maent wedi'i ddweud wrthym yn cael ei adlewyrchu'n gywir yng ngweithgaredd dylanwadu a datblygiadau polisi'r sefydliad. Roedd ein profiad blaenorol yn dangos nad oedd un ateb i bopeth felly - yn ogystal â'r gwaith roeddem yn ei wneud yn barod - fe wnaethom ni ddatblygu dwy ffordd newydd o gynnwys plant a phobl ifanc fel eu bod yn gallu cyfranogi mewn gwahanol agweddau ar ein gwaith.

Cynnwys plant a phobl ifanc yn ein gwaith beunyddiol

Mae pobl ifanc bob amser wedi cyfrannu'n weithgar i'n gwaith, er enghraifft, yn ystod ymarferion recriwtio, gan wneud sylwadau neu bleidleisio ar gyhoeddiadau neu ddyluniad y wefan, neu drwy gyfrannu at ymgynghori neu brosiectau penodol. Rydym hefyd yn ymateb i wahoddiadau gan ysgolion, prosiectau a fforymau ieuenctid a grwpiau eraill o blant a phobl ifanc ac yn cynnal rhaglen ragweithiol o ymweliadau, gweithdai a mynychu digwyddiadau. Ynghyd â'n grŵp e-bost, Atebnôl, mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi llawer o wybodaeth i ni yn ogystal â'n helpu i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y Comisiynydd Plant a hawliau plant yn gyffredinol.

Yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf gwnaed ymrwymiad i glustnodi adnoddau ar gyfer sefydlu rhaglenni a strwythurau ar gyfer cynrychiolwyr a dulliau er mwyn cynyddu ymwneud â'r sefydliad a phennu blaenoriaethau'r rhaglen waith. Daeth creu fframwaith ar gyfer mwy o gyfranogiad yn ein rheolaeth gorfforaethol a'n gwaith beunyddiol i'r amlwg fel rhywbeth oedd yr un mor bwysig â sefydlu mecanwaith i ddylanwadu ar yr hyn yr ydym yn ei ddewis fel ffocws o flwyddyn i flwyddyn.

"Dydy athrawon ddim yn ymwybodol o broblemau plant maeth ac maen nhw'n llai gefnogol."

Grwpiau ymgynghorol

Cynhyrchwyd fframwaith drafft ar gyfer cyfranogiad a chyfranogaeth plant a phobl ifanc, gan ystyried yr agweddau eraill ar ein gwaith a'r angen am sicrhau bod rhaid i beth bynnag a gâi ei sefydlu fod mor gynhwysol a chynrychioliadol â phosib. Yn dilyn ymgynghoriad gwerthfawr iawn gyda phobl ifanc mae datblygiadau pellach yn awr ar waith.

Mae dau grŵp ymgynghorol – a fydd yn cwrdd gydol y flwyddyn – yn cael eu sefydlu ar gyfer y ddwy swyddfa yn Abertawe a Bae Colwyn. Cafodd yr aelodau eu recriwtio drwy fforymau ieuenctid presennol o bob awdurdod lleol i sicrhau bod pobl ifanc o bob rhan o Gymru'n medru cymryd rhan. Sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'n gwaith ac yn gallu gweithio fel tîm yw'r cam nesaf. Bydd gan bob grŵp ryw 15 o aelodau 11-16 oed a rôl benodol yn y sefydliad, gan edrych ar ein ffordd o gyflawni'n cyfrifoldebau a chyflwyno gwasanaethau. Bydd y bobl ifanc yn helpu gyda chynnal y strwythurau ychwanegol sydd bellach yn eu lle i benderfynu ar gynnwys a blaenoriaethau'n rhaglen waith. Byddant hefyd mewn sefyllfa dda i helpu i ysgrifennu a chynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd ac i'n helpu i gynllunio a chyflwyno gweithdai a digwyddiadau. Mae llawer o bosibiliadau – ond aelodau'r grwpiau ymgynghorol fydd yn penderfynu pa rolau maent am eu datblygu.

Estyn llaw i blant a phobl ifanc

Mae Peter Clarke yn sicrhau, drwy ymweld yn rheolaidd ag ysgolion a grwpiau o bobl ifanc, siarad mewn cynadleddau a mynychu digwyddiadau, ei fod yn cael y newyddion diweddaraf o ran y materion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc a beth sy'n effeithio ar eu bywydau. Drwy'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth a chysylltiadau â sefydliadau a chyrff allanol mae hefyd yn casglu gwybodaeth am faterion sy'n destun pryder arbennig.

Ond mae sicrhau ei fod yn casglu gwybodaeth o'r fath gan HOLL blant a phobl ifanc Cymru yn dasg anodd, ac, er bod y gwaith o gynnwys plant a phobl ifanc a chynnal deialog gyda nhw wedi bod ar waith ers cryn amser, lluniwyd y rhaglenni o ymweliadau a gweithdai i sicrhau ein bod yn mynd ati'n systematig i gyrraedd pawb.

Cychwynnwyd ar raglen drefnus, wedi'i thargedu, o waith gyda phlant a phobl ifanc mewn grwpiau diamddiffyn ac 'anodd eu cyrraedd' yn gynnar yn 2004 ac aeth yn ei blaen yn ystod 2005. O ystyried yr ardal ddaearyddol eang a'r amrywiaeth helaeth o grwpiau dan sylw mae hyn yn golygu gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill ac yn ymrwymiad tymor hir. Er mwyn cydnabod gwerth y math hwn o waith rydym yn gobeithio sicrhau arian i gyflogi mwy o staff Cyfathrebu a Chyfranogiad yn y blynyddoedd nesaf i gyflawni'r dasg sylweddol a phwysig hon yn fwy effeithiol ac i roi'r gair ar led.

Mae'n hanfodol bod tîm y Comisiynydd Plant yn hawdd ei gyrraedd ac yn croesawu holl blant Cymru, gan ddathlu amrywiaeth a chofleidio arfer gwrth-ormesol. Rydym yn ymroddedig i weithio i'r diben hwn. Yn aml bydd hyn yn golygu gweithio gyda'r rheiny sydd â phrofiad o ddulliau cyfathrebu penodol neu waith uniongyrchol gyda grŵp penodol o blant a phobl ifanc. Mae tua hanner y tîm staff yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae nifer o aelodau staff eraill eisoes yn gwybod peth o'r iaith neu wedi mynd ati i'w dysgu. Rydym yn ffodus bod pob maes o'n gwaith yn cynnwys o leiaf un aelod o staff sy'n medru darparu gwasanaeth a chyfathrebu yn y Gymraeg.

Rhoi llais i blant a phobl ifanc yn ein gwaith

Roeddem yn teimlo ei bod hi'n ymarferol cydnabod – yn enwedig wrth i amser fynd heibio – bod cynllun gwaith tîm y Comisiynydd Plant ymhell o fod yn ddalen wag. Mae'r holl wahanol grwpiau staff yn ymwneud â gwaith craidd megis darparu cyngor a chymorth, rhedeg Atebnôl, ymweld ag ysgolion a grwpiau ieuenctid neu ymateb i ddogfennau ymgynghorol y Cynulliad. Rydym hefyd yn gyfrifol am edrych ar gynnydd materion ac argymhellion adroddiadau blaenorol ac ymateb yn gyflym pan fydd rhywbeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc yn cael llawer o sylw yn y cyfryngau neu os bydd argyfwng.

Er bod angen i ni fod yn realistig, mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn medru mynegi barn yn uniongyrchol wrth helpu pennu'n blaenoriaethau a nodi meysydd gweithredu allweddol. Ail elfen newydd ein strategaeth gyfranogiad a chyfranogaeth, felly, yw sicrhau eu bod yn cael lleisio barn ar yr hyn y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol.

"Roedd 3 person mewn cadeiriau olwyn yn yr ysgol ond doedd yna ddim rampiau. Felly, wnaethon ni setio fyny pwyllgor i wneud rhywbeth. Ond wnaethon ni ddim cwyno oherwydd roedden ni'n gadael yr ysgol."

Dewis beth sydd nesaf

O ble mae'r materion yn dod?

Maent yn dod o bob agwedd ar ein gwaith, gyda ffocws arbennig ar yr hyn mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrthym. Nid dim ond trwy ymweliadau a gweithdai, neu Atebnôl a llythyron at y Comisiynydd mae hyn yn digwydd. Mae'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth hefyd yn ffynhonnell wybodaeth bwysig. Yn ogystal â helpu i gyflawni gwell canlyniadau, mwy o amddiffyniad neu wneud iawn i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw, mae achosion unigol yn arwyddion gwerthfawr o ran y materion, y polisïau neu'r arferion sy'n achosi llawer o drafferth. Mae dadansoddi beth aeth o'i le ar gyfer un person ifanc yn rhoi cipolwg sy'n bwydo i'n cyfraniad at drafodaeth fwy cyffredinol, ymateb ymgynghori neu ymgyrch benodol. Gall fod sefydliadau plant, cymdeithasau proffesiynol neu gyrff eraill hefyd wedi dod â materion sy'n destun pryder at ein sylw, ac mae'r rhain i gyd yn cael eu hystyried wrth i ni benderfynu pa themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg.

Marnau chwarae a hamdden
Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym nad oes digon o fannau i gwrdd neu chwarae, na digon o bethau i'w gwneud yn eu hamser sbâr.

Unwaith roedd diwedd y flwyddyn wedi mynd heibio, fe wnaethom ni edrych ar yr wybodaeth a gasglwyd drwy'r gwahanol sianeli cyfathrebu a gofynnwyd i reolwyr eraill ystyried a rhoi sylwadau ar yr hyn a welent fel prif bryderon plant a phobl ifanc drwy eu gwaith. Cynhaliwyd cyfarfodydd a thrwy drafodaeth roedd modd i ni nodi 5 thema eleni. Gan ystyried ein bod eisoes yn edrych ar fwlio, dyma nhw:

- Addysg ac ysgolion
- Chwarae a chyfleusterau hamdden
- Iechyd emosiynol
- Cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc y mae ei hangen arnynt
- Parch

Yn y blynyddoedd nesaf rydym yn gobeithio bydd y grwpiau ymgynghorol yn ein helpu i nodi'r materion sy'n codi o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym.

Sut mae plant a phobl ifanc yn cael dewis?

Rydym yn ceisio rhoi cyfle i gynifer o blant a phobl ifanc â phosib fod yn rhan o'r penderfyniad, felly mae pawb rydym yn dod i gysylltiad â nhw yn cael cyfle i bleidleisio – aelodau Atebnôl (ein grŵp e-bost), unrhyw un sy'n ymweld

Addysg ac ysgolion
Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym os oes angen help arnynt yn yr ysgol nad ydynt bob amser yn cael eu trin yn deg, yn enwedig os ydynt mewn trafferth neu'n cael anhawster ymdopi gyda gwaith neu fywyd ysgol yn gyffredinol.

â'n gwefan, llysgenhadon ysgol, y rheiny sy'n rhan o unrhyw weithdai neu ddigwyddiadau rydym yn mynd iddynt. Cafwyd cyfle cyntaf i ddylanwadu ar y Comisiynydd yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd, a bydd y pleidleisio'n parhau i mewn i hydref 2005. Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau arbennig er mwyn i blant a phobl ifanc archwilio'r themâu a phleidleisio ar yr hyn y maen nhw'n teimlo dylai'r Comisiynydd Plant edrych arno nesaf.

Iechyd emosiynol

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym os ydynt yn cael trafferth ymdopi â'u meddyliau a'u teimladau y gallant ddechrau teimlo'n isel ac yn negyddol amdanynt eu hunain, ac nad oes unman lle gallan nhw fynd pan fydd angen help arnyn nhw.

Bwriedir i'r digwyddiadau fod mor gynhwysol a hygyrch (a difyr) â phosib, a chaiff lleoedd ynddynt eu dyrannu drwy ysgolion, sefydliadau a phrosiectau ledled Cymru. Dywedir wrth y sefydliadau hynny ein bod yn arbennig yn croesawu ceisiadau gan bobl ifanc anabl, pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol, teithwyr, pobl ifanc ddigartref, y rheiny sy'n derbyn gofal neu sydd wedi gadael gofal yn ddiweddar, troseddwyr ifanc a grwpiau eraill ar y cyrion. Ond does dim angen i ni wybod am eu cefndir oni bai bod ganddyn nhw anghenion y mae'n rhaid i ni ymateb iddyn nhw er mwyn iddyn nhw allu cymryd rhan. Dydyn nhw ddim yno i siarad am eu hamgylchiadau eu hunain nac i gynrychioli buddiannau grŵp penodol, ond mae'n bwysig bod y rheiny sy'n cymryd rhan yn adlewyrchu amrywiaeth cefndir a phrofiadau bywyd plant a phobl ifanc Cymru.

Yn 2005-06 bydd dau o'r digwyddiadau hyn, un ar gyfer rhai dros 11 oed yn Stadiwm y Mileniwm, ac un ar gyfer rhai 11 oed a iau yng Nghastell Bodelwyddan yng Ngogledd Cymru. Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r rhain, ond rydym yn gobeithio cynyddu nifer y cyfleoedd hyn i bobl ifanc leisio barn yn y dyfodol, gan ymweld â gwahanol rannau o Gymru o flwyddyn i flwyddyn.

A beth sy'n digwydd wedyn?

Cyhoeddir canlyniadau'r broses gyfan ym mis Ionawr 2006, mewn da bryd ar gyfer ein blwyddyn ariannol nesaf. Lluniwyd y cyfan i gyd-fynd â'n cylch cynllunio, felly bydd y ddau fater ar ben y rhestr yn dod yn 'brosiectau'r Comisiynydd' a bydd adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer gwaith a fydd yn cychwyn yn y flwyddyn ariannol ddilynol, a fydd yn dechrau ym mis Ebrill. Gallai Prosiect y Comisiynydd fod yn adolygiad, ymchwil pellach, neu hyd yn oed yn ymgyrch proffil uchel yn y cyfryngau. Bydd yr wybodaeth o'r digwyddiadau i blant a phobl ifanc yn dylanwadu ar yr union weithredu rydym yn ei ddewis ar gyfer y ddau fater blaenoriaeth, ac mae ganddi'r potensial i ddylanwadu ar ein hagwedd at themâu eraill a nodwyd hefyd.

Gwasanaethau cefnogi ar gyfer y rheiny y mae eu hangen arnyn nhw

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym ni mai ychydig iawn o help sydd ar gael, yn enwedig os nad ydyn nhw'n byw gyda'u rhieni neu os ydyn nhw'n cael problemau yn yr ysgol.

Parch

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym ni nad ydyn nhw'n teimlo bod oedolion bob amser yn eu parchu. Weithiau maen nhw'n teimlo nad ydyn nhw'n cael gwrandawiad na'u cymryd o ddifri, neu bod pobl bob amser yn meddwl y gwaethaf amdanyn nhw. Gall hyn wneud pethau'n anodd iawn.

Hybu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Yn ôl y ddeddfwriaeth, rhaid i'r Comisiynydd Plant ystyried Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ym mhopeth mae'n ei wneud. Byddai gweithdai a chyflwyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc neu'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw yn anghyflawn pe na bai rôl y Comisiynydd yn cael ei hesbonio yng nghyd-destun hawliau dynol plant a phobl ifanc.

Rydym yn hybu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn mewn sawl modd. Rydym yn annog ymwybyddiaeth o'r egwyddorion sy'n sail i'r cytundeb ymhlith y rheiny sy'n darparu gwasanaethau i blant a'r rheiny sy'n gyfrifol am feysydd polisi sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r hawl i amddiffyniad, darpariaeth a chyfranogiad yn ganolog i'n hagwedd at gyngor a chymorth, ac wrth gwrs mae gweithgareddau neu waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc bron yn ddieithriad yn troi o amgylch Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn a hawliau.

Llysgenhadon: y cynllun peilot

Mae'r ymgyrch llysgenhadon ysgol yn un enghraifft o sut mae'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth a gwella sianeli cyfathrebu gyda thîm y Comisiynydd yn cael ei gyplysu â hybu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Cynhaliwyd cynllun peilot ar gyfer yr ymgyrch llysgenhadon ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2004-05 ac ar hyn o bryd mae'n cael ei werthuso gyda'r bwriad o edrych eto ar y cynllun cyn ei estyn ar draws Cymru. Bu chwe ysgol gynradd o wahanol feintiau, rhai trefol a gwledig, a oedd yn cynnwys Ysgol Gymraeg ac ysgol arbennig, yn rhan o'r peilot.

"Es i'n gûs-bymps i gyd pan ges i fy newis i fod yn llysgennad."

Roedd rôl y 2 Lysgennad a etholwyd ym mhob ysgol yn fwy na gweithredu fel man cyswllt ar gyfer y swyddfa a dweud wrth gyd-ddisgyblion am y Comisiynydd. Roeddent hefyd yn arwain prosiectau yn edrych ar faterion allweddol yn eu hysgolion – er enghraifft, edrych ar fwlio, cyfleusterau maes chwarae neu ginio ysgol – ac yn hybu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yn yr ysgol. Roeddent yn cadw dyddlyfrau ac yn defnyddio camerâu a thâp i gofnodi beth oedd yn digwydd. Darparwyd cit offer i gefnogi'r Llysgenhadon a'r athrawon cyswllt ym mhob ysgol ac roedd cefnogaeth ymarferol ar gael oddi wrth y Swyddogion Cyfathrebu. Fe wnaethom ni hefyd gynnal 2 Gyfarfod Llysgenhadon Cymru Gyfan yn y Canolbarth. Cafodd y peilot ei werthuso'n llawn gan y plant oedd yn rhan ohono, yr athrawon cyswllt a'r Swyddogion Cyfathrebu oedd yn arwain y cynllun, ac mae adroddiad bellach yn cael ei baratoi.

"O'r blaen roedd pobl yn meddwl bod dim hawl ganddyn nhw i ddweud beth fyddai'n digwydd, ond nawr maen nhw, felly maen nhw'n teimlo'n well amdanyn nhw eu hunain. Maen nhw'n gallu dweud eu dweud."

Pa nodweddion sydd eu hangen ar Y LLYSGENNAD?

Y gallu i wrando ar beth y mae pobl yn yr ysgol yn ei feddwl
Llwyddo i wneud ffrindiau newydd gyda phobl o ysgolion eraill
Y gallu i fod yn hapus a gwneud rhywbeth gwahanol yn yr Ysgol
Siarad drosoch eich hun
Gofyn os nad ydych chi'n siŵr ynglŷn â rhywbeth a chael help os oes angen
MEdru siarad dros eraill yn eich ysgol chi
YN gallu gweithio gyda phobl eraill
GwNeud pethau er mwyn i chi allu ceisio newid pethau i bobl ifanc
Abl i drefnu pethau, e.e. rhoi posteri'r Comisiynydd i fyny
Dibynadwy. Bydd yn dod i unrhyw gyfarfodydd ac yn ateb negeseuon!

"Mae ffordd yr ysgol wedi newid, a'r cinio."

Codi llais ar ran plant a phobl ifanc

Mae trosglwyddo'r neges yn glir yn hollbwysig os yw pencampwr plant i fod yn effeithiol. Mae angen i blant a phobl ifanc gael adborth ar yr hyn sy'n cael ei wneud â'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi i ni ac mae angen i ni sicrhau bod llunwyr polisi a'r rheiny sy'n gallu gwneud gwahaniaeth yn gwybod am farn ac argymhellion y Comisiynydd. Rydym bob amser yn ceisio adlewyrchu'r hyn mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrthym, nid dim ond yr hyn sydd orau iddyn nhw yn ein barn ni.

Drwy roi cyfweliadau i bapurau newydd cenedlaethol, lleol a rhai'r DU, cylchgronau a chyfnodolion, a rhaglenni teledu a radio, rydym yn ceisio cyrraedd cynifer o bobl â phosib. Mae digonedd o ymholiadau o'r cyfryngau, ac er ein bod yn cynhyrchu datganiadau i'r wasg, mae'r rhan fwyaf o gyfleoedd yn y cyfryngau'n codi o ddigwyddiadau allanol, felly mae'n rhaid i ni fod yn barod i ymateb. Mae dyfodiad Comisiynwyr Plant yng ngwledydd eraill y DU yn golygu bod gennym lawer o gyfleoedd newydd. Byddwn yn recriwtio i swyddi i'n helpu i wneud yn fawr o'r rhain ac i wella'n dull o drosglwyddo'r neges a rheoli'n perthynas gyda'r cyfryngau.

Gweithio gydag eraill

Gan fod ein gwaith yn cynnwys amrywiaeth mor eang o faterion rydym yn ymwybodol iawn na ddylem ddyblygu gwaith asiantaethau eraill. Er mwyn bod yn glir ynghylch sut rydym yn gweithio gyda chyrff eraill rydym yn llunio Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda phob sefydliad unigol. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu llofnodi gan y

ddau barti ac yn glir iawn ynghylch ein cyfrifoldebau a'r hyn y gallwn ei ddisgwyl gan ein gilydd. Mae Memoranda o Ddealltwriaeth wedi neu yn cael eu cwblhau gydag Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a CAFCASS Cymru. Bydd cytundebau tebyg gydag asiantaethau a sefydliadau eraill yn cael eu llunio yn y man. Byddant yn helpu tîm y Comisiynydd i gydweithio ag asiantaethau y mae eu gwaith yn cael effaith ar hawliau a lles plant a phobl ifanc.

Dylanwadu a rhwydweithio

Yn aml nid yw hawliau plant yn cael eu parchu oherwydd bod system neu weithdrefn wedi cael ei sefydlu i wasanaethu sefydliad yn hytrach na phlentyn neu berson ifanc. Er bod peth o'n gwaith dylanwadu'n digwydd wrth i ni hybu argymhellion darn penodol o waith, mae peth ohono hefyd yn ymwneud â diogelu plant neu'n edrych yn benodol ar gyfranogiad. Lluniwyd perthynas gyda Byrddau Iechyd Lleol Iedled Cymru, darparwyr eiriolaeth, mudiadau plant a chymdeithasau proffesiynol, yn ogystal â grwpiau diddordeb arbennig, isadrannau'r Cynulliad a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Cynulliad, gan seilio'n hymatebion polisi ar wybodaeth a gasglwyd drwy ein gwaith cyfranogiad, cyngor a chymorth, a chyfathrebu. Mae dylanwadu ar y llywodraeth a llunwyr polisi yn galw am ystod eang o weithgareddau. Gan ein bod yn ceisio cyflawni newid diwylliannol, o fewn sefydliadau neu'r gymuned ehangach, mae'n rhaid ymdrin â hyn yn llydan. Mae aelodau o dîm y Comisiynydd yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau a gweithgorau – yn aml fel arsylwyr i gynnal eu hannibyniaeth – gan sicrhau ein bod yn medru dylanwadu ar ddatblygiadau a chyflawni gwelliant yn gynnar yn oes ymgyrch polisi neu arfer gwaith. Mae bod â statws arsylwr yn golygu ein bod yn medru cadw llygad ar gynnydd a datblygiadau, ond hefyd gwneud awgrymiadau, er enghraifft ynghylch sut gallai'r gweithgorau helpu plant a phobl ifanc i fod yn rhan o ddatblygu, monitro a gwerthuso polisi. Rydym hefyd yn cyfrannu at nifer o rwydweithiau a grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â'n gwaith.

Roedd y grwpiau a'r rhwydweithiau y buom yn cymryd rhan ynddynt neu lle'r oedd gennym statws arsylwyr yn cynnwys y canlynol:

- Grŵp Tasg a Gorffen Eiriolaeth LICC, yn ystyried gwasanaethau eiriolaeth plant a sefydlu Uned Eiriolaeth Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Grŵp Byw'n Iach yr Holl Bleidiau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Grŵp Ymgynghori a Gweithredu Cwynion a Chynrychiolaethau (CRAIG)
- Adolygiad Amddiffyn Plant mewn Perygl, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Trais yn y Cartref: Grŵp tasg a gorffen cyswllt plant yn ystyried agwedd Gwasanaethau Ymgynghori a Chefnogi'r Llysoedd Plant a Theuluoedd (CAFCASS) at faterion plant yng nghyswllt trais yn y cartref
- Y grŵp yn adolygu'r broses a ddilynir pan fydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru yn cyd-adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru
- Gweithgor gwrthweithio Ecsbloetio Rhywiol Plant
- Fforwm Rhyngasiantaeth Llys Teuluol Abertawe
- Cymdeithas Deddf Gyhoeddus Cymru a Chyfreithwyr Hawliau Dynol
- Cyngor Cyfiawnder Teuluol
- Datblygu'r Offeryn Hunanasesu ac Archwilio ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth (NSF)
- Gweithgor Cynllun Gweithredu Magu Plant
- Fforwm Polisi Amddiffyn Plant
- Cymdeithas Cyfraith Deuluol Cymru
- Grŵp Polisi Plant NGOs Cymru
- Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
- 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable!
- Grŵp Monitro Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Rhwydwaith Cyfreithiol Plant (y DU)
- Tasglu Tlodi Plant LICC
- Grwpiau Cyfnewid Arfer Hawliau Plant Plant yng Nghymru yn Ne a Gogledd Cymru
- Tadolaeth Cymru
- Gweithgor Galluogi Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
- Grŵp Llywio ac is-grwpiau Consortiwm/Uned Cyfranogiad Cymru
- Sefydliadau Pobl Ifanc Cymru Gyfan (AWYPO)

Gweld y darlun mwy

Mae cyswllt rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw neu'n gweithredu ar eu rhan yn hanfodol. Er y gallwn ganolbwyntio o bosib ar rai materion penodol, mae angen hefyd i ni gadw bys ar bwls rhai o'r materion pwysig eraill. Fel swyddfa mae'n bwysig ein bod yn cyflawni'n rôl fel eiriolwyr systemig, gan geisio dylanwadu ar ddatblygiad a gweithrediad polisi a gyrru'r agenda yn ei blaen. Mae materion ehangach yn dod at ein sylw mewn tair prif ffordd:

- cyswllt uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, er enghraifft drwy waith cyfranogiad neu gyngor a chymorth
- gwybodaeth a rennir gyda ni gan weithwyr proffesiynol a sefydliadau
- agweddau allweddol ar adolygiadau

Mae hyn yn golygu ein bod yn medru gwneud sylwadau gwybodus ar amrywiaeth o faterion – yn wir, unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant a phobl ifanc.

Ewrop a'r tu hwnt

Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmyn Plant

Ym mis Hydref 2004, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmyn Plant (ENOC) yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Roedd rhyw 50 o gynadleddwyr yn bresennol, yn cynrychioli swyddfeydd comisiynwyr plant o bob rhan o'r gymuned Ewropeaidd, a chafwyd trafodaethau dwys dros gyfnod o dridiau. Ar ddiwedd y cyfarfod, daeth Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru, yn Llywydd ENOC.

Cyflwynodd plant a phobl ifanc o FeFi (grŵp drama plant sy'n derbyn gofal) a Ddraig Ffynci beth o'u gwaith a gwybodaeth

am eu profiadau i'r cynadleddwyr. Roedd baneri Hawliau Plant a chwilt Hawliau mawr – yn amlygu'r Erthyglau yng Nghytundeb y CU sy'n fwyaf perthnasol i'r plant a'r bobl ifanc a'u cynhyrchodd yn ystod ein rhaglen o weithgareddau a gweithdai yn haf 2004 – hefyd yn cael eu harddangos yn amlwg.

Comisiynydd Plant Talaith Gorllewin Cape yn Ne Affrica

Wrth i nifer y gwledydd sydd am sefydlu swyddi tebyg gynyddu rydym wedi derbyn llawer o ymholiadau o bob rhan o'r byd yn gofyn am ein cyngor a hefyd ein meddyliau ynghylch y profiad o sefydlu'n swyddfa a'n tîm ein hunain. Roeddem yn falch o groesawu Derrick Schroeder, gwas sifil uwch gyda llywodraeth Talaith Penrhyn y Gorllewin yn Ne Affrica ar ymweliad 3 mis yng ngwanwyn 2005. Diben yr ymweliad oedd cynorthwyo a galluogi Derrick i baratoi arweiniad a rheoliadau drafft ar gyfer sefydlu Comisiynydd Plant ar gyfer Penrhyn y Gorllewin; rhoi iddo brofiad uniongyrchol o waith beunyddiol Comisiynydd Plant; a helpu i sefydlu cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a'r llywodraeth ym Mhenrhyn y Gorllewin.

"Hoffwn i siarad i rywun am sut rydw i'n teimlo."

Adran 3

Defnyddio'r offer sydd gennym: pwerau statudol y Comisiynydd

Gellir cymharu'r pwerau a nodir yn y cyfreithiau a sefydlodd Gomisiynydd Plant Cymru â'r offer y mae eu hangen i wneud y gwaith. Nid yw'r holl offer sydd ar gael yn cael eu defnyddio bob dydd, ond mae gweithgareddau a rhaglen waith y flwyddyn wedi golygu bod y pwerau cyfreithiol wedi'u defnyddio'n effeithiol. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi rhai pethau y mae'n rhaid i Peter Clarke eu gwneud i fod yn bencampwr gwybodus i blant a phobl ifanc, gan yrru newid yn ei flaen i sicrhau dyfodol mwy disglair a diogel i blant Cymru.

Adolygu polisïau a gweithdrefnau

Mae cynnal adolygiad yn rhoi cyfle i ni edrych yn fanylach ar sut mae systemau a gweithdrefnau'n hybu ac yn diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc.

Adolygiad Awdurdodau Addysg Lleol

Yn ystod y flwyddyn buom yn cwblhau a choladu'r data o'r adolygiad o'r trefniadau a wnaed gan AALlau yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau cwynion ac eiriolaeth plant, a pholisïau datgelu camarfer. Ar sail y fformat a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad o wasanaethau cymdeithasol yn yr adroddiad ***Datgan Pryderon***, roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i ddeall y trefniadau a wnaed, nid mewn awdurdodau addysg lleol yn unig, ond mewn awdurdodau lleol yn gyffredinol, gan fod llawer o'r polisïau'n cael eu defnyddio ar draws holl adrannau'r awdurdod heblaw'r gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd angen i ni ddarganfod sut roedd AALlau yn darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc am eu hawl i gwyno am y gwasanaeth a ddarparwyd, a hefyd darganfod a oedd polisïau a gweithdrefnau presennol AALlau yn hygyrch i blant a phobl ifanc, ac yn troi o amgylch y plentyn. Mae diwygio arweiniad presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bolisi a gweithdrefn gwynion gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn gyfle i ddiwygio polisïau a gweithdrefnau cwynion cyfredol AALlau. Hyderwn y bydd canfyddiadau'n hadolygiad yn bwydo i'r broses honno.

Roedd tair elfen i'r broses adolygu: casglu gwybodaeth drwy holiaduron manwl i bob awdurdod addysg lleol, gweithdai gyda phlant a phobl ifanc, a chyfweliadau gyda staff AALl uwch i egluro materion a llenwi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth. Gweler isod i gael mwy o fanylion am ein canfyddiadau.

Taclo bwlio yng Nghymru: adolygiad thematig

Erbyn diwedd Mawrth 2005 roedd y gwaith cynllunio a pharatoi wedi'i gwblhau yn barod ar gyfer yr adolygiad thematig cynhwysfawr ar fater bwlio a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2003-04. Mae'r adolygiad hwn i'w gynnal dros gyfnod o 18 mis, a thîm aml-swyddogaeth fydd yn gyfrifol amdano. Wedi'i nodi fel un o 'brosiectau'r Comisiynydd' ar hyn o bryd yn y cynllun corfforaethol, bydd yr adolygiad yn cynnwys plant a phobl ifanc yn ei holl elfennau. Bydd yn ceisio nodi bylchau a rhwystrau i weithredu ymgyrchoedd a pholisïau gwrth-fwlio yn effeithiol. Er y bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion, bydd yr ymagweddiad yn gyfannol ac yn ystyried materion perthnasol sy'n troi o amgylch y gymuned, diwylliant, a hyd yn oed bywyd y teulu. Ar adeg ysgrifennu rydym yn ceisio penodi secondai i gydlynu'r darn pwysig a sylweddol hwn o waith.

Cyhoeddi'n canfyddiadau a lledaenu arfer da

Dydy plant ddim yn cwyno … rhieni sy'n gwneud

Cwbhawyd yr adroddiad ar ail adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o'r systemau ar gyfer diogelu a hybu hawliau a lles plant tua diwedd y flwyddyn. Cymerwyd teitl yr adroddiad – ***Dydy plant ddim yn cwyno…*** - o sylw a wnaed gan un Cyfarwyddwr Addysg a ddywedodd yn ystod y broses adolygu mai rhieni fyddai'n cwyno – nid plant neu bobl ifanc.

Roedd yr angen am newid diwylliant o fewn awdurdodau addysg lleol yn glir er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ogystal â'u rhieni a'u gofalwyr yn cael eu gweld fel buddiolwyr y gwasanaethau a deiliaid hawliau. Go brin ei bod hi'n syndod bod awdurdodau addysg lleol yn derbyn cyn lleied o gwynion gan blant a phobl ifanc o ystyried mai anaml y mae'r systemau eu hunain yn hawdd nac yn hygyrch i blant eu defnyddio ac nad ydynt yn cael eu hybu.

Mae ***Dydy plant ddim yn cwyno…*** yn adrodd ar ganfyddiadau'r tîm adolygu, sef bod angen yn gyffredinol i awdurdodau addysg lleol wneud mwy o ymdrech i hysbysu plant a phobl ifanc am y gwasanaethau maent yn eu darparu a'u cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Roedd rhai o'r gweithdrefnau cwynion yn debygol o beri na fyddai oedolion yn gwneud cwyn, ac roedd agwedd ry negyddol – ychydig oedd yn gwerthfawrogi agwedd bositif defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i wella ansawdd gwasanaethau a helpu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

Testun pryder arbennig oedd y plant a'r bobl ifanc hynny mewn cyfleusterau arbenigol ymhell oddi wrth eu teuluoedd, gan mai ychydig o'r mesurau diogelu a fyddai yn eu lle petaent yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol sydd ar gael iddynt. Nododd llawer o'r swyddogion awdurdod addysg lleol eu bod yn ymwybodol o'r pryderon hyn a'r angen am ddarparu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc diamddiffyn yn ogystal ag agor a gwella'r systemau'n gyffredinol.

Roedd llawer o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad cynharach ***Datgan Pryderon***, a oedd yn canolbwyntio ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol, hefyd yn berthnasol. Mae argymhellion ***Dydy plant ddim yn cwyno…*** yn cynnwys:

- sefydlu siop dan yr unto i ddarparu man cyswllt ar gyfer plant a phobl ifanc sydd am drafod pryder ynghylch unrhyw wasanaethau perthnasol ym mhob awdurdod lleol
- adolygu'r polisïau datgelu camarfer i sicrhau bod yr agweddau amddiffyn plant yn glir a rhoi cyhoeddusrwydd i'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny ymhlith staff awdurdod lleol
- darparu gwasanaethau eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc, gyda chomisiynu eiriolaeth plant ym maes addysg yn flaenoriaeth.

"Cwyno yw'r cam cyntaf tuag at wneud pethau'n well drwy cael yr hyder neu'r 'guts' i siarad allan am rhywbeth sy'n anghywir neu sy'n eich poeni."

Monitro cynnydd o ran argymhellion

Beirniadaeth gyson ar adroddiadau yw eu bod yn eistedd ar silff wedi iddynt gael eu cyhoeddi a derbyn peth cyhoeddusrwydd. Mae'r gallu i fynnu ymateb i unrhyw argymhellion a wneir, ac i'w monitro, yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd i adroddiadau'r Comisiynydd Plant.

Adroddiad Clywch

Wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar Archwiliad Clywch ym mis Gorffennaf 2005, dechreuodd y gwaith o hysbysu'r holl bobl hynny yr oedd yr argymhellion yn berthnasol iddynt a gofyn am ymateb o fewn y terfynau o 3, 6 a 12 mis. Gan fod angen i gynifer o gyrff gwahanol, adrannau awdurdod lleol a hefyd Llywodraeth Cynulliad Cymru roi gwybod i ni sut roeddent yn bwriadu rhoi'r argymhellion ar waith – ac mae angen ystyried pa mor ymarferol effeithiol mae'r ymateb hwnnw'n debygol o fod – mae'r gwaith a gynhyrchwyd gan y broses hon wedi bod yn ddwys ac yn amrywiol.

Sefydlwyd tîm mewnol i ystyried yr ymatebion ac rydym yn gweithio gyda rheiny dan sylw, gan roi adborth ac anogaeth i sicrhau cyflawni holl fanteision gweithredu o ran mesurau diogelu gwell. Ceir meddyliau'r Comisiynydd ei hun ar y broses hon yn Adran 5 o'r adroddiad hwn.

Ers cyhoeddi ***Adroddiad Clywch*** rydym wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru: gan roi gwybodaeth iddynt am yr achosion unigol perthnasol, trafod yr arweiniad drafft sy'n ceisio gwella'r ymchwil a'r ystyriaeth a geir i honiadau o gam-drin, ac wedi bod yn hyfforddi llywodraethwyr ysgol gyda'n gilydd. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn a byddwn yn parhau i fonitro'u heffeithiolrwydd drwy'r achosion sy'n derbyn sylw'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth.

Datgan Pryderon a Dydy plant ddim yn cwyno …

Dangosodd yr ymatebion i'r ymarferiad monitro a gynhaliwyd wedi cyhoeddi ***Datgan Pryderon*** fod rhai adrannau gwasanaethau cymdeithasol wedi colli peth o'r momentwm cychwynnol a gwelir adolygu a monitro gweithrediad AALlau o argymhellion ***Dydy plant ddim yn cwyno…*** fel cyfle i sicrhau gwerthfawrogiad o werth eu gweithredu'n llawn.

Mae ein holl gyhoeddiadau ar gael o'n swyddfeydd, neu gellir eu lawrlwytho o'n gwefan www.childcomwales.org.uk

"Os ydych chi'n cwyno mae angen i chi wybod at bwy i gwyno."

Darparu cyngor a chymorth

Caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi mewn nifer o ffyrdd, ac roedd datblygu'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth ymhellach yn flaenoriaeth a nodwyd gan y Comisiynydd yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf. Bernir bod y pŵer statudol i ddarparu cyngor a chymorth ac i ymchwilio i achosion unigol yn offeryn gwerthfawr am y rhesymau canlynol:

1. Mae'n nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer adolygiadau polisi ac ymchwiliol, gan roi gwybodaeth i ni am brofiadau gwirioneddol plant a phobl ifanc a'r rheiny sy'n pryderu ynghylch eu hawliau a'u lles.
2. Gellir nodi bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwahaniaethau rhwng rhethreg polisi'r llywodraeth a'i weithrediad mewn gwirionedd, ac mae hyn yn ein helpu i gynllunio ffocws gweithgaredd dylanwadol at y dyfodol.
3. Rhoddir enghreifftiau bywyd go iawn i'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau neu sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc o effaith polisi neu arfer ac mae gweithio gyda nhw yn brofiad dysgu gwerthfawr i bawb sy'n rhan o hynny.
4. Mae gwybodaeth ac ystadegau o'r gwaith cyngor a chymorth yn bwydo i'n cynllunio tymor hir a'r blaenoriaethau a osodwn ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn datblygodd y gwasanaeth yn sylweddol gyda sefydlu rolau cyngor a chymorth penodedig newydd. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth o safon uchel, a datrys problemau'n llawer cynt yn aml nag oedd yn bosibl gyda system rota o staff ar draws y sefydliad. Datblygiad pellach oedd newid yn oriau agor y gwasanaeth oedolion. Mae'r gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd bob bore yn ystod yr wythnos o 10.00am tan 12.00 ganol dydd; ond gall plentyn neu berson ifanc gael cyngor a chefnogaeth ar unrhyw adeg yn ystod oriau swyddfa.

Achos enghreifftiol

Cafodd disgybl cynradd oedd ag anhwylder sbectrwm awtistig drafferth yn cael ei dderbyn yn ôl i'w ysgol gynradd ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd am nad oedd ei ddatganiad AAA yn nodi cefnogaeth un i un. Teimlai'r ysgol fod cefnogaeth un i un yn angenrheidiol, ond ni ellid cael hyd i arian ar ei chyfer. Yn dilyn ymyrraeth y tîm Cyngor a Chymorth sicrhaodd yr adran gwasanaethau cymdeithasol gefnogaeth arbenigol i helpu gyda rhaglen strwythuredig ac edrych ar ei anghenion addysgol.

Ffocws y gwasanaeth yw datrysiadau cyflym ac effeithiol lle nad yw gwasanaethau'n gweithio dros blant. Cyflawnir hyn drwy gyfryngu, trafod, eiriol a chyfeirio. At ei gilydd, caiff problemau eu datrys yn fuan er boddhad i blant a'u teuluoedd o fewn terfynau amser sy'n dderbyniol iddynt.

Achos enghreifftiol

Derbyniodd y tîm cyngor a chymorth alwad gan deulu person ifanc 16 oed sy'n anorecsig ac a oedd yn cael trafferth cael mynediad i ganolfan arbenigol yng Nghaerdydd neu Fryste oherwydd diffyg arian a gwelyau. Cysylltodd y gweithiwr Cyngor a Chymorth â'r amrywiol asiantaethau a derbyniwyd y ferch ifanc i'r ysbyty i gael triniaeth ychydig ddyddiau'n ddiweddarach.

Achos enghreifftiol

Gwnaeth dau blentyn honiadau o gam-drin rhywiol yn erbyn aelod o'u teulu. Ymchwiliwyd i'r honiadau a phenderfynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron beidio â chychwyn erlyniad. Caeodd y Gwasanaethau Cymdeithasol yr achos oherwydd achos cyfreithiol preifat a chytunwyd ar gyswllt dan oruchwyliaeth gan y llys. Daethpwyd â'r plant i'n sylw am fod rhai aelodau o'r teulu'n teimlo nad oedd y trefniadau cyswllt yn amddiffyn y plant yn ddigonol. Wedi i ni ymyrryd, cytunodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i ailagor yr achos a chynnal asesiad risg i weld a oedd unrhyw beryglon parhaus.

Ffeithiau a ffigurau

Dyma un o'n meysydd gwaith sydd wedi tyfu gyflymaf, ac er bod y tyfiant cychwynnol bellach wedi sefydlogi, cynyddodd nifer yr achosion newydd 11½ % ers y flwyddyn 2003-04. Ar unrhyw adeg benodol bydd rhyw 100 achos ar agor ar gyfartaledd, gyda 279 o achosion newydd yn cael eu dwyn i'n sylw yn ystod y cyfnod Ebrill 2004 i Fawrth 2005.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyswllt cychwynnol yn dod drwy riant, gofalwr neu'r teulu estynedig, ond rydym yn siarad â'r plentyn neu'r person ifanc cyn gynted â phosib i ganfod eu meddyliau a'u teimladau am y sefyllfa. Mewn rhai achosion mae'n briodol bod yr oedolion – yn ofalwyr neu'n weithwyr proffesiynol – yn gweithredu fel eiriolwyr dros y plentyn neu'r person ifanc a nhw fydd ein prif gyswllt. Mae hyn yn arbennig o briodol yn achos plant ifanc iawn, neu'r rheiny ag anghenion cyfathrebu penodol. Caiff oedolion eu hysbysu bob amser ein bod yn gweithredu dros y plentyn neu'r person ifanc ac mai eu lles, eu dymuniadau a'u teimladau, yn hytrach na dymuniadau'r oedolion, fydd yn arwain ein camau gweithredu.

Rhyw'r plant y gweithredwyd ar eu rhan 2004-05



Cyngor a chymorth: sut cysylltwyd â ni 2004-05



Cyngor a chymorth: pwy wnaeth y cyswllt cychwynnol 2004-05



Oedrannau'r plant y gweithredwyd ar eu rhan 2004-05



Cyngor a Chymorth: Materion 2004-05



Achos enghreifftiol

Ysgrifennodd disgybl ysgol gynradd yn uniongyrchol at y Comisiynydd gan ddweud bod ei hathrawes yn ei bwlio ac yn esbonio sut roedd hyn yn ei phoeni. Gofynnodd i'r Comisiynydd stopio'r bwlio. Cyfarfu aelod o'r tîm Cyngor a Chymorth â'r ferch ifanc i gael mwy o wybodaeth ac wedyn cysylltu â'r ysgol i weld a ellid datrys y mater yn foddhaol. Er bod yr oedolion dan sylw wedi dilyn y weithdrefn ffurfiol, roedd yn amlwg ei bod wedi methu datrys y mater i'r plentyn. Mewn cyfarfod sensitif gyda'r athrawes dan sylw daeth yn eglur nad oedd hi wedi gwerthfawrogi effaith ei hymddygiad ar y disgybl, ac fe wnaeth hi ymddiheuro wrthi.

Pa fath o faterion mae pobl yn cysylltu â ni yn eu cylch?

Mae'r mathau o faterion a ddaeth i'n sylw drwy gyngor a chymorth wedi bod yn debyg o flwyddyn i flwyddyn gydag addysg – yn arbennig Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) – a materion gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig o amlwg. Lle cawsom nifer sylweddol o gysylltiadau, mae'r graff yn cynnwys penawdau ar wahân ar gyfer materion sydd hefyd yn dod o dan y pennawd gwasanaethau cymdeithasol neu addysg.

Bu'r nifer uchaf o achosion eleni ym maes amddiffyn plant. Mae'r achosion hyn yn dod atom pan fydd partïon â diddordeb yn teimlo bod plant yn dal mewn perygl er gwaethaf ymwneud y gwasanaethau cymdeithasol â'r achos. Rydym yn ymdrin â'r achosion hyn drwy wrando ar blant, pobl ifanc a'u cynrychiolwyr, gan gwrdd â'r asiantaethau perthnasol i geisio sicrhau bod yr asiantaeth yn ailystyried ac yn asesu'r risgiau rydym yn tynnu eu sylw atynt. Rydym yn monitro ymchwiliadau dilynol yn fanwl.

Caiff achosion amddiffyn plant hefyd eu codi'n uniongyrchol gyda chyrff eraill megis Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a CAFCASS Cymru. Rydym yn gwbl ymwybodol bod rhai o'r plant a'r bobl ifanc sy'n dod atom wedi colli ffydd ac ymddiriedaeth yn yr asiantaethau statudol. I'w hannog i ddod i ddweud wrthym am eu lles a lles plant eraill, yn enwedig y rheiny sy'n derbyn gofal, mae gennym lefel uwch o gyfrinachedd na'r asiantaethau statudol, ac ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth ond gyda chaniatâd y plentyn neu os byddwn yn barnu bod y plentyn hwnnw neu blentyn arall mewn perygl.

Mae achosion gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud yn bennaf â sicrhau gwasanaethau i blant mewn angen. Mae'r rhain yn cynnwys plant sy'n ceisio lloches. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal yn gofyn i ni eu helpu i weld aelodau o'u teuluoedd yn unol â'u hawliau dynol, neu i'w helpu i newid neu aros yn eu cartref maeth cyfredol. Buom yn cynorthwyo plant i herio'r penderfyniad i gau eu cartref preswyl ac yn cefnogi pobl ifanc i aros y tu allan i'r sir, lle roeddent wedi cael eu lleoli, wedi gwneud ffrindiau ac wedi ymsefydlu yn y gymuned leol. Mae cael eich derbyn i ofal yn brofiad trawmatig i blentyn, ac mae ansawdd eu cartref maeth a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt yn bwysig ar gyfer eu lles a'u gallu i gyflawni eu potensial. Drwy achosion unigol rydym wedi dod yn ymwybodol o ddiffyg dewis ac argaeledd cartrefi maeth, o gartrefi anaddas, ac o blant yn cael eu symud o un cartref maeth i'r nesaf fel bod cysylltiadau teulu, diwylliant a chyfoedion o dan fygythiad. Mae hyn yn cael effaith annerbyniol ar blant a phobl ifanc sydd mewn sefyllfa hynod fregus. Mae sawl achos yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol yn methu â darparu'r gofal y cytunwyd arno yn y cynlluniau gofal. Rydym yn cydnabod y straen aruthrol ar staff gwasanaethau cymdeithasol o ran recriwtio a chadw staff, ond mae'n hanfodol bod y gwasanaeth a addewir i bob plentyn yn cael ei gyflwyno.

Mae'r achosion Anghenion Addysgol Arbennig yn llawn cwynion a phryderon am y broses ddatganiadau neu am wasanaethau na ddarperir i blant er eu bod wedi'u nodi yn eu datganiadau. Rydym yn helpu rhieni i gael mynediad i gefnogaeth ar hyd y broses ac yn ymyrryd mewn achosion unigol i hygyrchu gwasanaethau lle maent yn bodoli. Mae'n rhwystredig nad yw hyn bob amser yn bosib, yn enwedig yn achos iechyd meddwl, lleferydd, iaith a therapi galwedigaethol, neu ar gyfer plant ag anableddau corfforol neu ddysgu.

Mae addysg yn parhau'n destun pryder sylweddol gyda chyfeiriadau gan blant, rhieni, athrawon a llywodraethwyr. Nid yw hyn yn syndod gan fod mwyafrif plant Cymru'n treulio

Achos enghreifftiol

Roedd merch 11 oed yn cael ei hanfon i ysgol uwchradd wahanol i'w ffrindiau ac yn anhapus ac yn anfodlon iawn am hynny. Cyfarfu gweithiwr cyngor â hi i ganfod ei dymuniadau a'i theimladau. Anfonwyd llythyr cefnogi at y gwasanaethau disgyblion yn ystod y broses apêl a chynigiwyd lle iddi yn yr un ysgol uwchradd â'i ffrindiau.

Achos enghreifftiol

Cysylltodd rhiant â'r swyddfa yn pryderu ynghylch diffyg gweithgareddau, grwpiau a chanolfannau ieuenctid yn ei hardal leol. Roedd hefyd yn pryderu am y lleihad yn nifer y mannau chwarae i blant iau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Rhoddodd y tîm Cyngor a Chymorth wybodaeth gyswllt iddi ar gyfer gwasanaeth priodol yn ei hardal a throsglwyddo'r wybodaeth i Chwarae Cymru.

cyfran helaeth o'u diwrnod yn yr ysgol. Roedd y prif broblemau y clywsom amdanynt yn gysylltiedig â bwlio, gan gynnwys honiadau o gam-drin gan athrawon a phenaethiaid yn ogystal â disgyblion eraill. Fel arfer, unig ddymuniad y plentyn yw iddo ddod i ben, derbyn ymddiheuriad a chael sicrwydd ei fod yn ddiogel. Mae angen cyfryngu a thrafod yn

uniongyrchol ac yn sensitif gyda Phennaeth yr ysgol, gan gadarnhau unwaith eto'r angen am wasanaethau cyfryngu lleol i blant a theuluoedd. Mae hyn aml wedi arwain at ddatrys y broblem, gyda'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. Rydym hefyd wedi cynorthwyo plant i fynd i ysgolion o'u dewis neu ysgolion arbennig ac i gael mynediad i gludiant ysgol mewn achosion o wahardd. Rydym yn rheolaidd yn cynghori athrawon, penaethiaid a llywodraethwyr mewn sefyllfaoedd sensitif lle mae honiadau o gam-drin.

Mae'r achosion iechyd yn bennaf yn ymwneud â sicrhau'r gwasanaeth i'r plentyn, gan gynnwys CAHMS, ceisio galluogi rhyddhau plant o'r ysbyty a'u cefnogi yn eu cymunedau drwy helpu Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a gwasanaethau cymdeithasol i gydweithio i gael hyd i arian. Mae wedi'n synnu bod yr achosion hyn yn cael eu hystyried yn unigol, ar sail ad hoc. Rydym hefyd yn dal i bryderu am y diffyg gwelyau i blant ag anhwylderau bwyta yng Nghymru.

Mae'r achosion tai yn ymwneud yn gynyddol â phlant sydd mewn perygl o fod yn ddigartref am fod landlordiaid cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn bygwth eu troi allan. Yn yr achosion hyn rydym yn ceisio trafod gyda'r awdurdod tai a gwneud y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai plant fod mewn angen yn eu hardal os cânt eu troi allan o'u cartref.

Mae plant yn cysylltu â ni'n uniongyrchol am eu bod am gael eu cynrychioli ar wahân yn gyfreithiol mewn gwrandawiadau preswyl a chyswllt, am nad ydynt yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Ni allwn ymchwilio i unrhyw fater sy'n destun achos cyfreithiol, nac adrodd arno; serch hynny rydym yn cyfeirio plant at gyfreithwyr ar y Panel Plant. Rydym yn croesawu Bam ddiweddar Llys Ewrop sy'n estyn yr hawl i gynrychiolaeth annibynnol ar gyfer pobl ifanc rhugl yn eu harddegau. Buom yn darparu cymorth ariannol er mwyn i un plentyn gael cynrychiolaeth ar wahân mewn achos cyfraith gyhoeddus a gododd faterion cyffredinol ar gyfer plant yng Nghymru.

Materion heb eu datganoli

Rydym yn dal i weithredu yn y meysydd hynny sydd heb eu datganoli i'r Cynulliad ac sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru. Mewn un achos eleni achoswyd trallod mawr i'r plant a symudwyd a'u ffrindiau a adawyd ar ôl gan gyrch toriad gwawr yr Heddlu er mwyn gorfodi'r plant i symud o'u cartref yng Nghaerdydd a dychwelyd i Angola. Derbyniodd y Comisiynydd ddwsinau o lythyron oddi wrth blant oedd yn pryderu am eu ffrindiau, wedi cynhyrfu, yn bryderus ac yn ddig nad oeddent hyd yn oed wedi cael cyfle i ffarwelio. Fe wnaethom ni godi'r arfer annynol hwn gyda'r Prif Weinidog, a orchmynnodd i'r gwasanaeth mewnfudo ymchwilio i'r mater. Fe wnaethom ni hefyd gysylltu â'r Heddlu ac rydym wedi cytuno i'w cynorthwyo i adeiladu pontydd gyda'r plant, gan geisio tawelu eu hofnau. Drwy Grŵp Comisiynwyr y DU byddwn yn parhau i herio'r arfer annynol a diangen hwn ac effaith enbyd polisïau mewnfudo'r DU ar blant.

Yn naturiol bydd gwasanaethau'r Heddlu yng Nghymru yn ymwneud â rhai achosion unigol weithiau, ac rydym wedi cydweithio, gan gyfnewid gwybodaeth ac eiriol dros blant. Mae hyn fel arfer yn gweithio'n dda, ond weithiau mae ein hanallu i gael gafael ar wybodaeth wedi achosi trafferthion. Rydym yn cydweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i ddatblygu model ataliaeth gyfannol aml-asiantaeth, a hynny gan gynnwys plant a phobl ifanc, troseddwyr ifanc a'r rheiny sydd mewn perygl o droseddu, mewn prosiectau gwella cymdogaethau a leolir yn y gymuned. Rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau'r flwyddyn nesaf.

Adolygiadau ymchwiliol

Ni all rhai o'r achosion cymhleth iawn sy'n cael effaith gyffredinol ar blant yng Nghymru yn ogystal ag ar y plentyn neu'r person ifanc penodol dan sylw gael eu datrys drwy drafodaeth, eiriolaeth na chyfryngu am amrywiaeth o resymau. Yn yr achosion hyn mae gennym y pŵer i ymgymryd ag adolygiad sydd yn ei hanfod yn ymchwiliad. Mae pob ymchwiliad yn galw am amrywiaeth o sgiliau ac arbenigedd gwahanol, yn unol â'r pwnc a'r materion sydd dan sylw. Er mwyn cyflawni'r ymchwiliadau hyn i'r safon uchaf o fewn ein cyllideb byddwn yn cyfarwyddo timau bychan o arbenigwyr yn y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd yn gweithredu o dan gyfarwyddyd ac yn cael eu monitro gan yr Is-Gomisiynydd(Cyfreithiol ac Ymchwiliadau).

Rydym yn gorff rhagnodedig ar gyfer datgelwyr camarfer sy'n bobl broffesiynol ac yn tystio i arfer sy'n destun pryder yn y gweithle, ac sy'n effeithio ar les plant. Caiff datgelwyr camarfer eu hamddiffyn gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd wrth ddatgelu gwybodaeth i ni. Eleni bu i ni dderbyn cyfeiriadau gan ddatgelwyr camarfer a'u cynorthwyo drwy gyflwyno'r pryderon hynny i'r bobl berthnasol yn eu sefydliadau a'u cefnogi ar hyd y broses, gan fonitro'r canlyniadau.

parch
cynnwys
lleisiau
hawliau
gwrando
agored
cefnogaeth
tegwch

Adran 4

Ein Rhaglen waith at y dyfodol: Beth nesaf?

Yn ogystal â'r gweithgareddau newydd a restrwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn a dal ati gydag elfennau parhaus ein rhaglen waith, yn ystod y flwyddyn Ebrill 2005 i Fawrth 2006 bydd yr agweddau allweddol fel a ganlyn:

- datblygu ein gwasanaeth Cyngor a Chymorth i blant a phobl ifanc
- sefydlu tîm o ymchwilwyr arbenigol i gynnal ymchwiliadau i achosion unigol yn ôl y galw
- dysgu gwersi'r peilot llysgenhadon ysgol a pharatoi pecyn cymorth a chynllun newydd i Gymru gyfan
- cynyddu ymhellach ymwneud systematig plant a phobl ifanc â'r broses gynllunio a phennu blaenoriaethau ein rhaglen waith at y dyfodol
- estyn gwasanaeth Atebnôl i gynnwys negeseuon testun SMS
- parhau i fonitro gweithrediad yr argymhellion a wnaed yn ***Datgan Pryderon***, ***Dydy Plant ddim yn cwyno…*** ac ***Adroddiad Clywch***
- hybu ymhellach y galwadau polisi a wnaed mewn adroddiadau eraill megis ***Codi'r Clawr*** ac ***Ond mod i'n cyrraedd yn sâff***
- parhau i wrando a dysgu, adolygu, ymchwilio, hybu arfer da, a chodi llais dros blant a phobl ifanc Cymru
- cynnal adolygiad thematig cynhwysfawr ar fater bwlio, gan gynnwys plant a phobl ifanc yn ei ddyluniad ac yn y gwaith o lunio argymhellion
- canolbwyntio'n fwy penodol ar Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- cynnal dau ddigwyddiad er mwyn hwyluso cyfranogaeth plant a phobl ifanc a'u dylanwad ar ein rhaglen waith
- parhau â'n gwaith gan fonitro, adolygu ac ymateb i ymgynghoriadau, a sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais yn y materion sy'n effeithio arnynt.

2006-07

Bydd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ddilynol sy'n cychwyn yn Ebrill 2006 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfraniad plant a phobl ifanc i bennu'n blaenoriaethau a dylanwadu ar sut rydym yn ymgymryd â pheth o'r gwaith rydym eisoes wedi ymrwymo i'w wneud.

Er y gall fod angen trefnu'r manylion yn derfynol yn amodol ar ariannu, yn 2006-07 mae'r Comisiynydd Plant yn bwriadu:

- cyhoeddi a chychwyn dau 'brosiect y Comisiynydd' a nodwyd gan blant a phobl ifanc fel blaenoriaethau gweithredu
- recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr i gefnogi gwaith y gweithwyr Cyngor a Chymorth
- cwblhau'r adolygiad thematig ar Fwlio a chyhoeddi'n canfyddiadau a'n hargymhellion
- ehangu'n gwaith cyfranogiad uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, a chryfhau cysylltiadau â grwpiau lleol, gwasanaethau hawliau plant ac asiantaethau drwy recriwtio Swyddogion Cyfathrebu a Chyfranogiad mewn rhannau eraill o Gymru a lansio'r cynllun Llysgenhadon diwygiedig
- lansio llinell Radffon benodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

"Dwi'n meddwl bod yna ddau fath o ofidio. Y gofidio mae pobl yn gwneud pan maen nhw'n ofnus, a'r gofidio pan ydych chi dan fygythiad."

"Teimlaf fod rhai pobl ifanc yn creu trwbwl ond mae llawer o bobl ifanc yn gwneud gwaith da yn eu cymuned. Ond y bobl ifanc drwg sy'n cael y sylw i gyd a dyw'r bobl ifanc da yn cael bron dim. Mae'r wasg yn ystrydebu pob person ifanc o ganlyniad i'r troseddau mae lleiafrif bach yn eu cyflawni."

Adran 5

Adolygiad y Comisiynydd Plant o faterion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru

Materion allweddol 2004-05

Parch

Yn fy Adroddiad Blynyddol cyntaf erioed, ar gyfer y flwyddyn 2001-02, fe wnes i amlygu mater parch. Fe wnes i rannu'r neges glir oddi wrth blant a phobl ifanc nad oeddent yn teimlo ein bod ni, cymuned yr oedolion, yn eu parchu. Nid wyf wedi ymddiheuro am ddychwelyd at y thema hon mewn adroddiadau dilynol, ac rwyf mor bryderus yn ei gylch ar hyn o bryd – yn sgîl persbectif cyfredol gwahanol iawn ar barch mewn trafodaethau gwleidyddol ar hyn o bryd – fel fy mod wedi dewis ei wneud yn fater pennawd ar gyfer y rhan hon o'm Hadroddiad Blynyddol.

Mae pobl ifanc Cymru wedi parhau i adrodd am yr un teimladau hynny yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Os rywbeth, maent yn teimlo bod y ffordd y mae'r drafodaeth genedlaethol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cael ei chynnal wedi gwaethygu pethau. Rwyf wedi cael fy siomi'n fawr gan ran gwleidyddion uwch yn y DU sydd fel petaent yn barod i ailadrodd ac ychwanegu at hanesion brawychus y papurau tabloid am blant gwyllt, gan fethu ag amddiffyn enw da ein pobl ifanc. Rwyf wedi bod yn falch nad yw mwyafrif llethol aelodau'r Cynulliad wedi dilyn yr arweiniad gwael hwn.

Wrth gwrs mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn canmol oedolion unigol sy'n eu parchu ac sy'n cydnabod eu gwerth. Mae rhieni, gofalwyr, athrawon, gweithwyr ieuenctid a llawer o bobl eraill yn cael sylw cadarnhaol yn hyn o beth. Serch hynny, yr enw drwg cyffredinol ac agweddau oedolion yn sgîl hynny sy'n gwneud pobl ifanc yn isel eu hysbryd. Mor aml sonnir am blant a phobl ifanc yng nghyswllt problemau yn unig – caiff eu beiau eu chwyddo ac anwybyddir eu gwerth.

Gellid tybio bod y ffaith i barch gael ei godi fel mater gan ffigurau gwleidyddol uchaf y wlad yn achos dathlu. Yn anffodus, er efallai fel y gallem ragweld, mae'r drafodaeth wedi ymwneud â phobl ifanc nad ydynt yn parchu pobl hŷn yn ddigonol yn unig. Hyd yn oed mewn lleoliadau addysg a ddylai ganolbwyntio ar anghenion y disgyblion, bydd cytundebau cartref ysgol yn sôn am yr angen i blant barchu'r staff, ond anaml y dywedir y dylai pawb yng nghymuned yr ysgol drin ei gilydd â pharch.

"Gan fod yna rhai plant ifanc sydd yn yobs yn cam-drin llefydd fel canolfan siopau, mae pob plentyn ifanc yn cael ei trin fel un , ac nid yw hyn yn deg o gwbwl."

Mae'n amlwg bod rhai oedolion yn drysu rhwng parch ac ofn ac ufudd-dod, ac yn hiraethu o bosib am oes a fu pan oedd plant yn ofni oedolion. Mae'n ymddangos yr un mor glir bod llawer mwy o oedolion yn anfodlon meddwl sut gallent haeddu parch yr ifanc. Maen nhw fel petaent yn disgwyl parch awtomatig gan yr ifanc mewn ffordd wahanol i'w cyd-oedolion. Nid ydynt chwaith yn ei arddangos yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn derbyn y dylai oedolion yn gyffredinol fod yn esiampl dda. Efallai y gallai ein harweinwyr gwleidyddol uwch ddangos eu parch at ieuenctid gwledydd y DU yn hytrach na phregethu atyn nhw o hyd.

Nid un sylw cadarnhaol o bryd i'w gilydd mewn môr o sylwadau negyddol yw parch go iawn. Mae'n golygu gwrando'n ofalus, cysylltu â'r materion go iawn y mae pobl ifanc yn eu hwynebu a chymryd sylw go iawn o'r hyn rydych yn ei glywed.

Byddai'n gam cyntaf da – os yw hon yn ymgais o ddifri i sicrhau a dangos parch – petai llywodraeth y DU yn ddewr ac yn gwahardd taro plant o dan bob amgylchiadau. Mae'n anodd gweld hygrededd trafodaeth ynghylch parch

o'r ddeutu gyda phlant a phobl ifanc pan gofiwn mai nhw yw'r unig garfan o'r gymdeithas sy'n gallu cael eu taro heb gosb yn dilyn.

Gwasanaethau Eiriolaeth Annibynnol

Yn 2003 bu i mi adolygu darpariaeth gwasanaethau eiriolaeth i blant gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a chyflwynais nifer o argymhellion pwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac eraill. Ers cyhoeddi ***Datgan Pryderon*** mae holl batrwm y ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru wedi newid. Prin yw'r dystiolaeth fod y newid hwn wedi digwydd o ganlyniad i unrhyw weledigaeth strategol ac ychydig dystiolaeth sydd o ymgynghori â phlant a phobl ifanc neu eu cynnwys yn y newidiadau.

Mae'r gwasanaethau dan sylw yn cael eu hanelu'n bennaf at bobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac a fydd eisoes wedi profi llawer o aflonyddwch yn eu bywydau. Os ydym yn peri torri eu perthynas ag eiriolwyr rydym yn ychwanegu at eu trallod ac yn eu hatal rhag cael y gefnogaeth a all ddeillio o berthynas dymor hwy gydag oedolion dibynadwy sy'n haeddu eu hymddiriedaeth.

Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd yn bennaf yn sgîl penderfyniadau unigol gan awdurdodau lleol sy'n comisiynu eiriolaeth, yn aml o flwyddyn i flwyddyn. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch graddfa'r annibyniaeth go iawn sydd gan ddarparwyr eiriolaeth pan fyddant mor uniongyrchol yn nyled y rheiny sy'n eu talu, ac a all beidio â'u defnyddio pan ddaw'r contract i ben. Er gwaethaf ymrwymiad eiriolwyr i hawliau plant, mae'n ddealladwy, os nad oes sicrwydd o ran eu swydd neu eu gwasanaeth eu hunain, y gall fod effaith ar berfformiad. Mae herio a chwestiynu gweithredoedd awdurdod lleol dros berson ifanc yn ddigon anodd o dan unrhyw amgylchiadau – ond dychmygwch gymaint yn anoddach gallai hynny fod os canfyddir y gallai eu swydd fod mewn perygl uniongyrchol o ganlyniad.

Mae fy mhryder hefyd yn estyn i'r rôl a nodwyd yn Neddf Plant (yn Gadael Gofal) 2000 – sef rôl yr Ymgynghorydd Personol. Diben y rôl hon yw diogelu a hybu lles a datblygiad parhaus y rheiny sy'n gadael gofal. Mae gofyn iddynt weithredu fel canolwr rhwng y person ifanc a'u gweithiwr cymdeithasol – cynrychiolydd yr awdurdod lleol. Rydym wedi derbyn llawer o alwadau gan bobl ifanc, rhai ohonynt mewn trallod, yn bryderus ac yn ddig am y cynlluniau gadael gofal a gynhyrchwyd gan yr awdurdod lleol. Nid oedd un o'r bobl ifanc yn teimlo bod eu hymgynghorwyr personol wedi cynrychioli eu barn na chwaith wedi cyfryngu ar eu rhan. Byddaf yn adolygu sut caiff y rolau hyn eu monitro a'u rheoleiddio yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Rwy'n credu bod rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy rhagweithiol ym maes Eiriolaeth drwy adolygu'n drwyadl driniaeth contractau eiriolaeth. Mae hyn yn rhan o rôl yr Uned Eiriolaeth fel cafodd ei hargymell a'i disgrifio yn fy adroddiad ***Datgan Pryderon***, a dderbyniwyd gan LICC wedi iddo gael ei gyhoeddi dros ddwy flynedd yn ôl.

Rwy'n dal yn hynod bryderus a siomedig ynghylch y diffyg gweithgaredd. Nododd Syr Ronald Waterhouse yn glir bwysigrwydd eiriolaeth annibynnol dros blant a phobl ifanc, ond er gwaethaf ei adroddiad ef a sawl un gennyf i yn ategu'r neges hon, mae'r ddarpariaeth yn parhau'n fylchog gydag annibyniaeth amheus a newidiadau darparwr. Rwy'n methu deall pam nad yw LICC wedi mynd ar ôl y materion hyn yn fwy egnïol. Nid yw'r canlyniadau adnoddau'n debygol o fod yn fawr, ond mae peryglon anferth os na weithredir.

"Rydw 'in hoffi fy ysgol anghenion arbennig, ond dwi'n clywed eu bod nhw am eu cau nhw."

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth (NSF)

Roeddwn yn falch o ymuno â'r Gweinidog Iechyd ar y pryd, Jane Hutt AC, i lansio'r ymgynghori ar yr NSF i blant ym mis Hydref 2004. Mae gan bob plentyn yng Nghymru beth cyswllt â iechyd a gwasanaethau cysylltiedig ac mae ar lawer angen cryn gefnogaeth iechyd. Cynhyrchwyd y ddogfen ei hun mewn modd oedd yn dangos peth o'r parch a nodais uchod. Ymgynghorwyd â llawer o rieni a phlant ac yn amlwg gwrandawyd ar eu barn.

Holl nod y safonau yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu llunio a'u cyflwyno fel eu bod yn addas i anghenion plant, yn hytrach na bod y plant yn gorfod ffitio i'r gwasanaethau rhagnodedig. Mae hyn yn arwyddocaol iawn a gallai lywio gwelliannau parhaol go iawn yn iechyd a lles ein plant. Mae'r NSF yn rhaglen strategol dymor hir, ac rwy'n derbyn y bydd angen amser i'w chyflwyno.

Serch hynny, rwyf yn pryderu'n fawr ynghylch lefel yr ariannu y bydd awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau yn ei derbyn er mwyn rhoi'r safonau ar waith. Rydym yn cydnabod bod hon yn weledigaeth 10 mlynedd, ond ni roddwyd awgrym o lefel yr ariannu y gellir ei disgwyl i ddechrau'r broses o weithredu. O ystyried y problemau a wynebwyd yng Nghymru wrth sicrhau arian digonol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant er gwaethaf strategaeth yr un mor arloesol, mae hwn yn bryder go iawn. Dyna pam byddaf yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Arolygiaeth Iechyd Cymru i gynnal cyd-adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i blant ymhen dwy flynedd.

Nyrsys Ysgol

Mae nyrsys ysgol yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o sicrhau bod plant yn cael y cychwyn gorau posib i'w bywyd ysgol. Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol i iechyd a lles plant, gan gyflawni swyddogaethau megis darparu cymorth cyntaf ac asesiadau ar y safle, addysg iechyd, ac yn aml yn chwarae rhan mewn ymgyrchoedd gwrth-fwlio. Gallant roi cyngor ar fwyta'n iach, ymarfer corff, lles emosiynol, smygu, camddefnyddio sylweddau, iechyd rhyw a llu o faterion eraill yr ydym ni i gyd am i'n plant fod wedi'u paratoi i ymdopi â nhw. Yn ogystal â bod mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion salwch ac afiechyd, nhw yw'r bobl fwyaf tebygol o sylwi ar arwyddion cam-drin corfforol a rhywiol, bwlio neu hunan-niweidio. Mae eu rôl yn hybu lles emosiynol a meddyliol plant yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i ofal bugeiliol mewn ysgolion ac maent mewn sefyllfa dda i weithio ochr yn ochr â'r cwnselwyr a ddylai fod ar gael ym mhob ysgol yn ôl fy argymhelliad yn adroddiad ***Clywch***.

Mae'n drawiadol bod pwysigrwydd eu rôl wedi cael ei gydnabod ar lefel polisi, yn enwedig wedi cyhoeddi Adroddiad Carlile, *Peth Rhy Ddifrifol* a oedd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn ac yn gweithredu'r argymhellion i ddatblygu a gwella Gwasanaeth Iechyd yr Ysgolion. Mae llawer o blant a phobl ifanc rwyf fi'n siarad â nhw yn gwerthfawrogi eu nyrs ysgol yn fawr. Caiff y ffaith fod ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth wella mesurau diogelu ei gydnabod yn y canllawiau – ac eto mae'n amlwg nad oes digon ohonynt. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi dweud bod rhai nyrsys ysgol yn gyfrifol am dros 6,000 o ddisgyblion. Sut gall hyd yn oed y nyrs fwyaf ymroddedig ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel o dan amgylchiadau o'r fath?

Cyhoeddwyd yr adolygiad o ymweliadau iechyd a nyrsio ysgol yng Nghymru – *Recognising the Potential* – yn 2000, ac roedd yn waith darllen digonol yn yr ystyr bod Cymru ar

ei hôl hi o'i chymharu â gwledydd eraill y DU o ran datblygu potensial nyrsys ym maes iechyd cyhoeddus. Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn cwestiynu gallu unrhyw Ymddiriedolaeth neu Awdurdod Addysg i ddarparu Gwasanaeth Iechyd digonol mewn Ysgolion i blant yn eu hardal, gan ddisgrifio'r gwasanaeth fel *'fragmented, grossly underdeveloped and under resourced'*.

> " Dylai bwyd iachus fod yn opsiwn mewn ygolion ond dyle neb ei orfodi ar blant a phobl ifanc. Mae'n anheg i wneud i bobl fwyta bwyd iach os nad ydyn nhw'n ei hoffi. Rhowch Dydd Gwener Seimlydd iddyn nhw – dyna pryd allen nhw fwyta sothach. "

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo arian ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn Lloegr. Y bwriad yw y bydd gan bob ymddiriedolaeth gofal cychwynnol un nyrs ysgol gymwysedig amser llawn ar hyd y flwyddyn yn gweithio gyda phob clwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd gysylltiedig erbyn 2010. Hyd yma ni chafwyd ymrwymiad tebyg gan Lywodraeth Cymru. Mae'n destun pryder sylweddol nad yw rhethreg y polisi'n cael ei wireddu yn syml oherwydd diffyg arweiniad strategol ac arian. Edrychaf ymlaen at glywed barn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y bwlch sylweddol hwn yn y gwasanaethau i wella iechyd corfforol ac emosiynol ein pobl ifanc.

Diogelwch y Rhyngrwyd

Mae'r rhyngrwyd wedi agor byd o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ac yn rhoi mynediad iddynt i wybodaeth a phrofiadau mewn modd na welwyd erioed o'r blaen. Yn anffodus, nid yw'r holl wybodaeth a'r profiadau hyn yn rhai cadarnhaol. Rydym wedi gweld mewn rhai achosion y dechnoleg newydd yn cael ei chamddefnyddio i fwlio, a'i chamddefnyddio gan oedolion i hudo plant a phobl ifanc, yn aml yn eu cartrefi eu hunain, ond heb i'w rhieni fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd.

Rwy'n pryderu am lefel a natur cam-drin plant ar y rhyngrwyd a niferoedd y plant a'r bobl ifanc sy'n ymwneud â hyn ac yn dioddef ei effaith. Rwy'n pryderu am y ffordd niweidiol mae'r cyfryngau'n cyflwyno'r mater. Fodd bynnag, rwy'n pryderu fwyaf am y diffyg rhaglenni gwybodaeth ac addysg i blant a phobl ifanc ar ddefnydd diogel o'r technolegau a'r risgiau sy'n codi oherwydd diffyg ymwybyddiaeth ar ran eu rhieni a'u gofalwyr ynghylch defnydd a chamddefnydd o'r rhyngrwyd. Rwy'n credu bod angen edrych ar y materion hyn nawr a bod rhaid iddynt dderbyn mwy o sylw mewn rhaglenni hyfforddiant cymhwyso proffesiynol, yn enwedig hyfforddiant i athrawon, hyfforddiant gwasanaeth cymdeithasol, hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a'r heddlu.

Mewn llawer modd mae'r materion sy'n ymwneud â'r defnydd o'r rhyngrwyd a'r e-bost yn fater o gydbwysedd, ac mae potensial y dechnoleg gwybodaeth i'r rheiny sy'n cam-drin yn fwy peryglus yn sgîl y modd y mae llawer ohonom yn gweld cyfrifiaduron a thechnoleg. Yn aml y person ifanc mewn perygl fydd yr aelod o'r teulu sydd â'r wybodaeth dechnegol fwyaf cynhwysfawr – mae'n bosib bydd y cyfrifiadur hyd yn oed yn eu hystafell gyda'r cysylltiad i'r rhyngrwyd. Iddyn nhw mae bod ar-lein yn brofiad o fyd preifat – yn rhywbeth y mae rhieni a gofalwyr wedi'u cau allan ohono'n drosiadol ac yn llythrennol. I rai pobl ifanc bydd cyfleoedd y rhyngrwyd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol yn amhrisiadwy. Er bod gan blant a phobl ifanc hawl i breifatrwydd, mae angen i rieni fod yn ymwybodol o'r peryglon. Mae dibynnu ar feddalwedd sgrinio'n annigonol, a gall hyd yn oed gynyddu'r peryglu. Mae angen i rieni wneud yn

fawr o'r potensial sydd gan dechnoleg gwybodaeth i'w gynnig iddynt hwythau, fel bod cyfrifiadur yn dod yn adnodd i'r teulu a'u bod felly'n gallu annog eu plant i drafod eu defnydd o'r rhyngrwyd ac unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Er bod llawer o wahanol sefydliadau, yn enwedig yn y sector gwirfoddol, wedi datblygu canllawiau a gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer pobl ifanc a'u rhieni, ni fydd hyn ynddo'i hun yn ddigon effeithiol. Rhaid i ni sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu am y strategaethau y gallant eu dilyn o ddod ar draws rhywbeth ar y rhyngrwyd sy'n eu gwneud yn anghyfforddus. Dylai llywodraethwyr ysgolion sicrhau bod defnydd diogel a chyfrifol o'r rhyngrwyd yn dod yn rhan annatod o ddiwylliant yr ysgol. Bydd fy nhîm innau'n siarad ag adrannau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac ACCAC – Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, ynghylch cyhoeddi gwybodaeth a hybu defnydd diogel o'r rhyngrwyd i blant a phobl ifanc.

Rhoi argymhellion Clywch ar waith

Fel yn achos ein hadroddiadau eraill caiff fy argymhellion o'r adroddiad Clywch eu monitro er mwyn gwirio'u gweithrediad o fewn terfynau amser penodol. Derbyniwyd nifer sylweddol o ymatebion, ac mae'n ymddangos bod gwahaniaethau o ran dehongliad ac ansawdd sy'n derbyn sylw fy nhîm ar hyn o bryd. Yn gyffredinol mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac rwy'n arbennig o falch gyda gwaith y cyfryngau darlledu yn mynd ati i ddatblygu polisïau amddiffyn plant ac yn sicrhau bod y rheiny sy'n gweithio ar eu rhan hefyd yn glynu atynt.

Mae dau argymhelliad arbennig o bwysig hefyd yn haeddu sylw yma. Cynigiodd argymhelliad 21.19 o'm hadroddiad sefydlu tasglu aml-asiantaeth dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ystyried fy argymhelliad 21.8, oedd yn ymdrin â sut dylid cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau disgyblu staff.

Ni chafwyd cefnogaeth eang i'm dewis i, sef tribiwnlysoedd annibynnol, pan gyfarfu'r tasglu'n unol â'r argymhelliad, a chynigiwyd gwahanol agweddau at sicrhau bod yr ymchwiliad i'r honiadau yn annibynnol. Er fy mod yn dal yn argyhoeddedig mai fy nghynigion gwreiddiol yw'r dewis gorau, rwyf yr un mor sicr bod rhaid cael lefel resymol o gonsensws ymhlith yr holl bartïon â diddordeb i sicrhau gwelliant gwirioneddol a fydd yn parhau yn ein systemau yng Nghymru. Yr argyhoeddiad hwn a barodd i mi argymell y tasglu a'i aelodaeth yn y lle cyntaf.

Ymddengys bod y cynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu asiantaeth ymchwilio annibynnol ac ar gyfer aelodau annibynnol, cyfreithiol gymwysedig, ar bwyllgorau disgyblu llywodraethwyr ysgol, yn mynd i'r afael â'r un pryderon â'm hargymhellion ac maent yn gwneud hynny gyda chytundeb cyffredinol – er nad unfrydol – partïon â diddordeb. Rwy'n canmol y Cynulliad am ei waith yn y maes hwn ac yn cydnabod cyfraniad yr undebau athrawon, awdurdodau addysg lleol, CLILC, llywodraethwyr ysgol, yr heddlu a phawb arall a fu'n cydweithio ar y materion hyn.

"Sai'n credu bod ysgolion wir yn poeni am lles emosiynol y disgyblion."

Datblygiadau o ran materion a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol

Mae'r materion a godais yn fy nau Adroddiad Blynyddol blaenorol yn dal i dderbyn sylw. Yma ni fyddaf ond yn canolbwyntio ar y rheiny sy'n dal yn destun pryder, neu lle bu datblygiadau penodol.

Tlodi plant

Tlodi plant oedd y pwnc pennawd yn fy Adroddiad Blynyddol cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002, ac roeddwn yn falch o'r ymdeimlad o frys a welwyd yn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'm galwad am weithredu bryd hynny. Fe wnes i gydnabod yr angen am ystyriaeth ofalus a derbyn bod yr hyn a welai rhai fel oedi annerbyniol cyn cyhoeddi adroddiad y Tasglu Tlodi Plant yn angenrheidiol. Wedi i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi, fe wnes i hefyd groesawu cyhoeddi strategaeth LICC i daclo tlodi plant, *Dyfodol Teg i'n Plant*, ym mis Chwefror 2005.

Unwaith mae gweledigaeth strategol wedi cael ei datblygu mae'n rhaid, wrth gwrs, sefydlu pa gamau sydd i'w cymryd a phennu targedau ar gyfer rhoi unrhyw gynlluniau gweithredu ar waith. Gwaetha'r modd, rwyf wedi cael fy siomi gan y cynnydd ers cyhoeddi dogfen y strategaeth, ac fe'm hysbyswyd bod y Cynllun Gweithredu heb ei ddatblygu eto. Rwy'n pryderu ynghylch y diffyg brys hwn ynghylch mater sydd, fel y nodais yn 2002, 'yn warth cenedlaethol'. Mae'r wybodaeth a roddwyd i mi yn awgrymu na fydd y Cynllun Gweithredu wedi'i gyhoeddi ac yn barod i'w weithredu nes bod blwyddyn lawn wedi mynd heibio ers cyhoeddi dogfen y strategaeth.

Er mai cam gwag fyddai awgrymu nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud dim i wrthweithio tlodi plant yn y cyfamser – mae'n gyfrifol am beth gwaith gwych – rwyf o'r farn bod yr oedi hwn yn hynod anffodus. Er bod yr ymrwymiad a nodwyd i ddileu tlodi yng Nghymru o fewn un genhedlaeth yn ddilys o bosib, rhaid dangos hynny â gweithredoedd yn ogystal â geiriau. Mae plant a'u teuluoedd yn haeddu strategaeth gydlynus a chyfannol a fydd yn helpu i gefnogi a gwella'r cyfleoedd bywyd i bawb sy'n byw mewn tlodi, ble bynnag y maent. Fel yn achos unrhyw strategaeth, rhaid ei hariannu'n ddigonol, a meddu ar agwedd gydlynus. Nid strategaeth nad yw'n wirioneddol strategol ac sydd heb ei rhoi ar waith eto yw'r canlyniad roeddwn i'n chwilio amdano ryw dair blynedd yn ôl. Rwy'n edrych ymlaen braidd yn ddiamynedd felly at gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu a byddaf yn monitro cynnydd o ran ei roi ar waith.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Mae fy mhryder ynghylch agwedd strategol at ddileu tlodi plant yng Nghymru – a hefyd yng nghyd-destun gweithredu'r NSF – wedi'i wreiddio wrth gwrs yn y profiad o arsylwi'r cynnydd araf o ran rhoi'r strategaeth CAMHS, *Busnes Pawb*, ar waith, y bu i mi ysgrifennu amdano mewn adroddiadau blaenorol. Er nad oes amheuaeth bod yr arian ychwanegol a gyhoeddwyd wedi bod o fudd, mae gweithwyr proffesiynol yn y maes yn dal i fynegi pryder wrthyf ynghylch methiant parhaus Cymru i ddarparu ymateb CAMHS digonol. Mae achosion unigol sydd wedi derbyn sylw fy ngwasanaeth Cyngor a Chymorth yn cadarnhau bod llawer yn dal i'w gyflawni. Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn aml yn sôn wrthyf am eu rhwystredigaeth, fel y mae'r rhieni a'u plant sy'n dioddef o ganlyniad.

Ymhlith datblygiadau cadarnhaol y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwaith nodi cynnar sy'n cael ei ddatblygu wrth i Weithwyr Iechyd Meddwl Cychwynnol ymgymryd â gwaith ataliol. Yn ôl gweithwyr proffesiynol profiadol, mae angen i ni gryfhau'r timau hyn ar draws Cymru i atal cyfeirio diangen a gwella cyfleoedd bywyd plant. Maent hefyd o'r farn y byddai sicrhau tri gweithiwr iechyd cychwynnol ar gyfer pob 100,000 o blant yn sicrhau bod lles meddyliol plant yn cael ei ddiogelu.

Rwyf hefyd yn falch o weld datblygiad gwasanaeth ymgynghori a thriniaeth fforensig (FACT) ar gyfer pobl ifanc. Er ei fod yn gyfyngedig ar hyn o bryd, mae'n ddechrau da. Serch hynny, mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol a hyfforddwyd yn benodol i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu cyflogi yn y gwasanaethau hyn.

Ar hyn o bryd mae pryderon penodol ynghylch mynediad i wasanaethau priodol ar gyfer rhai 16-18 oed gan fod CAMHS wedi'i gomisiynu ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 16 oed oni bai eu bod yn dal i dderbyn addysg amser llawn. Comisiynir Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion ar gyfer pobl ifanc 18 a throsodd, sy'n golygu bod bwlch yn y gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer llawer o bobl ifanc 16-18 oed a darpariaeth fylchog a phroblematig. Rwy'n argymell bod CAMHS yn cael eu comisiynu a'u hadnoddu i ddarparu ar gyfer pob person ifanc hyd at eu pen-blwydd yn ddeunaw.

Rwyf hefyd yn disgwyl gyda chryn ddiddordeb gynlluniau cost Comisiwn Iechyd Cymru ynghylch CAMHS Haenau 3 a 4. Mae'n warthus bod plant a phobl ifanc sy'n sâl yn gorfod cael eu lleoli mor bell o'u cartrefi, y tu allan i Gymru, ac fel arfer eu caethiwo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl i dderbyn triniaeth, therapi a gwasanaethau. Mae'n bosib mai dyma'r plant mwyaf diamddiffyn yng Nghymru, ac eto hwy, mae'n debyg, sy'n cael eu diogelu leiaf.

Bwlio

Ar hyd yr adroddiad hwn gwelir bod bwlio wedi parhau'n fater y mae plant a phobl ifanc yn ei godi, ac mae hyn wedi cadarnhau priodoldeb fy mhenderfyniad i gynnal adolygiad thematig er mwyn gwella pethau. Gan ei bod hi'n dal yn gynnar yn y broses, ac rwyf yn awyddus i ganiatáu cyfle i blant a phobl ifanc ddylanwadu'n gryf ar fy argymhellion, nid dyma'r amser i wneud datganiadau ysgubol. Fodd bynnag, o'n trafodaethau gydag ysgolion a'n hymweliadau â mentrau ledled Cymru mae'r rôl a chwaraeir gan sefydliadau gwirfoddol neu eraill mewn partneriaeth ag ysgolion wedi cael ei chadarnhau fel un hanfodol.

Caiff llawer o'r prosiectau neu'r partneriaid eu hariannu yn y tymor byr, ond mae eu gwaith o fewn ysgolion a'r gymuned ehangach yn gatalydd pwysig. I lawer mae 'taclo bwlio' i'w weld yn ymwneud â sancsiynau a rheoli ymddygiad, yn hytrach na newid diwylliant yr ysgol gyfan a pharchu eraill. Mae sefydliadau partner yn sicrhau'r cydbwysedd hwn ac yn aml yn medru cadw ffocws ar y mater yng nghymuned yr ysgol ar adeg pan fydd blaenoriaethau eraill ac agweddau gwahanol ar y cwricwlwm yn denu sylw'r staff. Ac wrth gwrs maent yn aml yn dod ag agwedd a phersbectif gwahanol at fater, gan hwyluso datblygiad disgyblion fel pobl gyfan, gytbwys.

O bryd i'w gilydd rwy'n derbyn llythyron gan sefydliadau neu brosiectau y mae eu cyllid dan fygythiad neu mae eu hoes yn dod i ben. Er ei bod hi'n anodd i mi fel pencampwr holl blant Cymru ymyrryd mewn achosion unigol, mae'n amlwg bod angen ymdrin â rhai o'r pryderon hollbresennol ynghylch ariannu tymor byr a chynaladwyedd. Mewn rhai achosion gellir gadael ysgolion wedi'u hynysu ac mae'r momentwm bron yn amhosib ei gynnal heb gefnogaeth y fath bartneriaeth. Mae sgiliau a

nodweddion arbennig, dyweder, agwedd seiliedig ar ddrama, celf neu hawliau, yn ychwanegu gwerth at yr hyn y gall yr ysgol ei ddarparu a gallant fod yn hanfodol ar gyfer parhad llwyddiannus menter bwerus ac effeithiol. Gyda phoblogaeth ysgol sy'n newid o hyd nid yw'n syndod y bydd gwerth rhai prosiectau'n cael ei golli mewn cyfnod cymharol fyr os nad yw'n gynaliadwy. Gall bwlch ariannol o ychydig fisoedd, hyd yn oed, fod â goblygiadau sylweddol – collir momentwm, mae'r staff yn symud ymlaen, ac mewn rhai achosion mae prosiectau gwahanol iawn yn cychwyn fwy neu lai o ddim, gan ail-greu'r olwyn unwaith eto.

"Roeddwn yn cael fy mwlio am bron i flwyddyn yn yr ysgol ac roedd yn mynd o ddrwg i waeth. Roedd un merch yn gyrru negeseuon tecst anifir yn fy ngalw yn enwau ac yn fy mygwth. Roeddwn yn rhy ofnus i ddweud wrth fy rhieni am y bwlio oherwydd roeddwn ofn i'r plant yn yr ysgol fy ngalw yn 'snitch'."

Yn amlwg, mae her yma i ysgolion, sefydliadau partner ac arianwyr, ac er ei bod yn ddealladwy na ellir darparu arian grantiau'n ddi-ben-draw, mae angen sicrhau dilyniant difwlch lle gwneir dyfarniadau newydd. Ar ben hynny, dylai prosiectau cyfnod penodol ganolbwyntio nid yn unig ar y gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, ond hefyd ar adeiladu gallu, cyflwyno hyfforddiant a sefydlu strwythurau mewn ysgolion, grwpiau ieuenctid a chymunedau i sicrhau na chollir y gwersi a ddysgwyd a bod etifeddiaeth gynaliadwy'n parhau.

Cefnogaeth i Rieni a Theuluoedd: y Cynllun Gweithredu Magu Plant

Yn fy adroddiad diwethaf nodais fy mhryderon ynghylch y diffyg cefnogaeth hygyrch anwahaniaethol ar gyfer pawb sy'n gyfrifol am fagu plant yng Nghymru. Lle'r oedd yr angen am welliannau o ran gwasanaethau cefnogi i rieni wedi cyrraedd lefel argyfwng, neu lle'r oedd pwysau amlwg yn sgîl eu hamgylchiadau eisoes wedi cael ei gydnabod, roeddwn yn awyddus i geisio sicrhau bod holl rieni a theuluoedd Cymru'n medru cael mynediad i gefnogaeth, gwybodaeth a chyngor yn ôl y galw. Fe wnes i hefyd gyflwyno achos dros sicrhau bod y rheiny sy'n magu plant hŷn a rhai yn eu harddegau a'r rheiny nad oeddent yn byw mewn ardaloedd Cychwyn Cadarn yn medru cael y mathau o fanteision a ddarperir gan gynlluniau a rhaglenni o'r fath a dargedir at rieni babanod a phlant iau.

Roeddwn yn falch, yn dilyn fy argymhelliad a chan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan y Fforwm Magu Plant, i Lywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu gweithgor i'w helpu i ddatblygu Cynllun Gweithredu Magu Plant. Cyflwynais innau sylwadau ar y cynllun drafft calonogol iawn ac yn awr rwy'n disgwyl newyddion am ganlyniad yr ymarfer ymgynghori. Mawr obeithiaf y bydd y cynllun hwn yn wirioneddol wedi'i seilio ar Gytundeb y CU ar Hawliau'r Plentyn ac y bydd yn arwain at ddatblygu gwasanaethau newydd – megis llinell ffôn gymorth ddwyieithog ar gyfer PAWB sydd â rôl magu plant – yn ogystal â'r gefnogaeth a ariannwyd eisoes o dan gynlluniau presennol megis Cymorth.

chwarae

siarad-allan

archwilio

cydnabod

eiriolaeth

monitro

hawliau

parch

Adran 6

CRYNODEB O'R DATGANIAD ARIANNOL

DATGANIAD ARIANNOL CRYNO am y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2005

Mae'r datganiad ariannol canlynol yn grynodeb o'r Cyfrifon Adnoddau ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru am y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2005. Trosolwg yw'r datganiad, ac nid yw'n cynnwys cymaint o wybodaeth ag a fyddai'n caniatáu dealltwriaeth lawn o ganlyniadau ac amgylchiadau Comisiynydd Plant Cymru, fel a ddarperir yn y cyfrifon blynyddol ac adroddiadau llawn. Mae set gyflawn o gyfrifon archwiliedig wedi ei rhoi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Cynulliad) ac y mae'n cynnwys y wybodaeth fanwl a fynnir gan y gyfraith a'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau. Gellir cael copi o'r cyfrifon hyn, yn ddi-dâl, trwy ysgrifennu at y Comisiynydd yn ei swyddfa gofrestredig:

Tŷ Ystumllwynarth
Llys Siarter
Phoenix Way
Llansamlet
ABERTAWE
SA7 9FS

Cefndir Statudol

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Pennir pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Comisiynydd yn y Ddeddf honno ac yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru a ddaeth i rym yn Awst 2001. Ymgymerodd y Comisiynydd cyntaf, Mr Peter Clarke, â'i ddyletswyddau ar 1 Mawrth 2004.

Adolygiad o'r gweithgareddau ac o ddatblygiadau'r dyfodol

Rhoddir adolygiad o'r gweithgareddau a datblygiadau'r dyfodol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli

Bu'r unigolion canlynol yn gwasanaethu fel aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

Peter Clarke
Sara Reid
Sharon Davies (a ymadawodd 6.2.05)
Charlotte Blair
Maria Battle
Rhian Davies

Buddiannau'r Uwch Dîm Rheoli

Mae cofrestr o'r holl fuddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ar gael i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd yn swyddfa gofrestredig y Comisiynydd.

Peter Clarke
Comisiynydd Plant Cymru
12 Medi 2005

Crynodeb o'r Alldro Adnoddau
am y cyfnod 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005

	2004-2005			2003-2004				
	Amcangyfrif			Alldro				
	Gwariant gros	Incwm	Cyfanswm net	Gwariant gros	Incwm	Cyfanswm net	Cyfanswm alldro net o gymharu â'r Amcang yfrif	Alldro'r flwyddyn flaenorol
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Costau gweinyddu	**1,400**	**-**	**1,400**	**1,497**	**-**	**1,497**	**(97)**	**1,155**

Datganiad Cryno o'r Gost Gweithredu
am y cyfnod 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005

	2004-2005		2003-2004	
	£000		£000	
Costau gweinyddu				480
Costau staff	756		657	
Costau gweinyddu eraill	741	1,497	499	1,156
Incwm gweithredu		-		(1)
Costau gweithredu net				**1,155**
Alldro adnoddau net		**1,497**		**1,155**

Y Fantolen Gryno

	ar 31 Mawrth 2005		ar 31 Mawrth 2004	
	£000		£000	
Asedau sefydlog		96		163
Asedau cyfredol				
Dyledwyr	43		21	
Arian yn y banc ac mewn llaw	535	578	192	213
Credydwyr: a ddaw'n ddyledus o fewn un flwyddyn		(472)		(196)
Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net		106		17
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		202		180
Ecwiti'r trethdalwyr		202		180

Datganiad Cryno o'r Llif Arian am y cyfnod 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005

	2004-2005	2003-2004
	£000	£000
All-lif arian net o weithgareddau gweithredol	(1,456)	(934)
Gwariant cyfalaf	(9)	(39)
Ariannu gan y Cynulliad	1, 808	1,142
Cynnydd mewn arian dros y cyfnod	**343**	**169**

Atodlen 5
Adnoddau yn ôl Nod ac Amcanion am y cyfnod 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005

NOD AC AMCANION COMISIYNYDD PLANT CYMRU

Nod

Amddiffyn a hybu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, ac wrth arfer pob un o'i swyddogaethau, rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

	2004-2005			2003-2004		
Amcan:	**Gros £000**	**Incwm £000**	**Net £000**	**Gros £000**	**Incwm £000**	**Net £000**
Amcan 1	430	-	430	445	1	444
Amcan 2	272	-	272	76	-	76
Amcan 3	83	-	83	104	-	104
Amcan 4	30	-	30	36	-	36
Amcan 5	45	-	45	125	-	125
Amcan 6	602	-	602	287	-	287
Amcan 7	13	-	13	4	-	4
Amcan 8	22	-	22	79	-	79
	1,497	**-**	**1,497**	**1,156**	**1**	**1,155**

Amcanion y Comisiynydd oedd y canlynol:

1. Hybu hawliau a lles Plant, a sicrhau bod Plant a Phobl Ifanc Cymru yn gwybod am fodolaeth y Comisiynydd, ei swyddogaeth a'i bwerau; lleoliad ei swyddfeydd a sut i gyfathrebu/cysylltu â'r Comisiynydd a'i staff a beth yw hawliau Plant a Phobl Ifanc, yn enwedig y rheini a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn; annog y fath gyfathrebu/cysylltu; a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ymwybodol o hawliau Plant a Phobl Ifanc.

2. Sicrhau y gofynnir barn Plant a Phobl Ifanc ynghylch y modd y dylai'r Comisiynydd gyflawni ei swyddogaeth, ac ynghylch cynnwys ei raglen waith flynyddol.

3. Adolygu a monitro'r trefniadau ar gyfer cwynion, eiriolaeth a chynghori, a datgelu camarfer, er mwyn canfod a ydynt, ac i ba raddau, yn effeithiol o ran amddiffyn a hybu hawliau a lles plant.

4. Adolygu a monitro'r effaith ar blant o ganlyniad i gyflawni, neu gynigion i gyflawni, unrhyw un o swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a/neu'r cyrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.

5. Archwilio achosion plant penodol sydd, neu a fu, yn derbyn gwasanaethau rheoledig gan gyrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.

6. Darparu neu drefnu cyngor, cynrychiolaeth neu gymorth arall i blentyn sy'n gwneud cwyn neu'n cyflwyno sylwadau i ddarparwr gwasanaeth; a/neu unrhyw weithrediadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau os yw'r gweithrediadau, ym marn resymol y Comisiynydd, yn ymwneud â materion mwy cymwysadwy a chyffredinol, neu'n berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru. Rhoi cyngor a gwybodaeth i unrhyw unigolyn.

7. Cadw pwerau'r Comisiynydd a'u heffaith ar Blant o dan arolwg parhaus.

8. Ystyried a chyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

Yr oedd naw amcan yng nghyfrifon y flwyddyn ariannol flaenorol, a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2004. Amcan 1 oedd "Hybu hawliau a lles Plant". Cyfunwyd yr amcan hwnnw gydag Amcan 2 yr flwyddyn ariannol, i greu'r Amcan 1 newydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2005, ac a nodir uchod.

Peter Clarke
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo
12 Medi 2005

NODIADAU

Sail Paratoi

Paratowyd y datganiad ariannol cryno hwn yn unol â Deddf Cwmnïau 1985 gan gyfeirio at Reoliadau Cwmnïau (Datganiad Ariannol Cryno) 1985 (OS 1995/2092) cyn belled ag y bônt yn berthnasol.

Archwilwyr

Mynegodd yr Archwilydd farn ddiamod ar y cyfrifon blynyddol llawn am y flwyddyn sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2005. Yn ychwanegol, nid oedd gan yr Archwilydd unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol.

Datganiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr wyf wedi edrych ar y datganiad ariannol cryno ar dudalennau 42 i 46, sydd wedi ei baratoi yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn Nodyn 1 uchod.

Priod gyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Archwilydd

Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw'r datganiad ariannol cryno. Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd fy marn wrthych chi am y modd y'i paratowyd a'i gysondeb â'r datganiad ariannol llawn a'r rhagair.

Yr wyf hefyd yn darllen gwybodaeth arll sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystryried ei arwyddocâd ar gyfer fy adroddiad os ydwyf yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiad neu anghysondeb gyda'r datganiad ariannol cryno.

Sail fy marn

Yr wyf wedi cyflawni fy ngwaith yn unol â'r Canllaw Archwilio, "Datganiad yr Archwilydd ar y datganiad ariannol cryno" a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Arferion Cyfrifo.

Fy marn

Yn fy marn i mae'r datganiad ariannol cryno yn gyson â datganiadau ariannol llawn a rhagair y Comisiynydd am y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2005 ac y mae wedi ei baratoi'n briodol ar y sail a bennir yn Nodyn 1 ar y datganiad ariannol cryno.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
28 Medi 2005
Swyddfa Archwilio Cymru
3-4 Plas y Parc
CAERDYDD
CF10 3DP

Children's Commissioner
Comisiynydd Plant Cymru

Peter Clarke

Monica Roberts
Personal Assistant
Cynorthwy-ydd Personol

Corporate Services
Gwasanaethau Corfforaethol

Sharon Davies
Acting Assistant Commissioner (Corporate Services)
Is-Gomisiynydd Dros dro (Gwasanaethau Corfforaethol)

Charlotte Blair
Finance & Administration
Rheolydd Cyllid a Gweinyddiaeth

Legal & Investigations
Cyfreithiol ac Ymchwiliadau

Maria Battle
Assistant Commissioner (Deputy, Legal & Investigations)
Is-Gomisiynydd (Dirprwy, Cyfreithiol ac Ymchwiliadau)

Elaine Cloke
Advice & Assistance Manager
Rheolydd Cyngor a Chymorth

Elin Jones
Investigations Officer
Swyddog Ymchwiliadau

Administration Assistants
Cynorthwywyr Gweinyddol

Khoyrun Begum

Nicola Jobbins
Finance Assistant
Cynorthwy-ydd Cyllid

Jon Murphy

Ros Madge

Children's Commissioner for Wales: the Commissioner and his team

Organisation chart to 31 March 2005

Communications & Participation
Cyfathrebu a Chyfranogiad

Sara Reid
Assistant Commissioner (Communications & Participation)
Is-Gomisiynydd (Cyfathrebu a Chyfranogiad)

Jo Sims
Senior Communications Officer
Uwch Swyddog Cyfathrebu

Julie Griffiths
Senior Communications Officer
Uwch Swyddog Cyfathrebu

John Tudor
Communications Officer
Swyddog Cyfathrebu

Sarah Lewis
Communications Officer
Swyddog Cyfathrebu

Jamie Gwilliam
Web & IT Co-ordinator
Cydlynydd y Wê a TG

Policy & Service Evaluation
Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau

Rhian Davies
Assistant Commissioner (Policy & Service Evaluation)
Is-Gomisiynydd (Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau)

Peter Hosking
Senior Policy & Service Evaluation Officer
Uwch Swyddog Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau

Mair Jones
Senior Policy & Service Evaluation Officer
Uwch Swyddog Polisi a Gwerthuso Gwasanaethau

Also working with us:
Yn gweithio gyda ni hefyd:

Nikki Bacon
Siân Dyer
Sarah Powell
Andrew Robinson
Liz Watt

and others
ac eraill

Comisiynydd Plant Cymru: y Comisiynydd a'i dîm

Siart y sefydliad hyd 31 Mawrth 2005